Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 550 · Chwefror 2024 · 70c

# Yr Hen Bost Newydd

Rydym yn falch o gyhoeddi fod Partneriaeth Ogwen wedi llwyddo gyda chais caniatâd cynllunio i ddatblygiad Yr Hen Bost – datblygiad fydd yn gartref i fusnesau lleol, prosiectau Partneriaeth Ogwen a chanolfan dreftadaeth newydd sbon i'r ardal. Roedd derbyn caniatad cynllunio yn benllanw cyfnod hir o weithio gyda chyllidwyr i sicrhau pryniant yr eiddo a sicrhau cyllid i adnewyddu'r adeilad.

**ADEILAD CYNALADWY**

Fel rhan o'r briff i'r pensaer a'r tîm dylunio, mae Partneriaeth Ogwen wedi gosod arweiniad clir ynglyn â'n ymrwymiad i ddatblygu adeilad i safonau amgylcheddol uchel. Y targed yw derbyn achrediad amgylcheddol BREEAM safon 'Gwych' ar gyfer yr adeilad newydd gyda defnydd o ynni adnewyddol ar y safle a chynllun rhagweithiol i leihau gwastraff a gweithredu yn gynaladwy. I'r perwyl hwn, byddwn yn gweithio gyda Chwarel y Penrhyn i sicrhau defnydd o lechi Penrhyn yn yr adeiladwaith. Bydd hyn yn cynnwys defnyddio darnau o lechi gwastraff mewn dull arloesol yn system gladio'r adeilad. Rydym hefyd yn cydweithio gydag Ynni Ogwen i sicrhau defnydd o baneli solar dan berchnogaeth gymunedol ar do'r adeilad ac yn y broses o gomisiynu pensaer tirlunio i edrych ar sut i dirlunio y gofod allanol cyfagos yn sensitif a chynaladwy.

**CYLLIDO**

Mae'r prosiect yn brosiect sylweddol ei faint ac ni fyddai'n bosibl heb y gefnogaeth ariannol rydym wedi ei dderbyn gan gyllidwyr. Mae'r rhain yn cynnwys cronfa Economi Gylchol Llywodraeth Cymru a chronfa Ffyniant Bro Llywodraeth San Steffan, gyda'r ddwy gronfa yn cael eu harwain yn lleol gan Gyngor Gwynedd. Oherwydd maint y datblygiad, bydd Partneriaeth Ogwen yn parhau i chwilio am gronfeydd eraill i wireddu rhai agweddau o'r prosiect a bydd cais grant yn cael ei gyflwyno i Gronfa Treftadaeth y Loteri. Yn y cyfamser, mae'r fenter gymdeithasol wedi buddsoddi amser diflino staff yn y prosiect a bydd y staff a gwirfoddolwyr yn parhau i weithio'n galed i wireddu'r cynllun.

Meddai Meleri Davies sy'n arwain y prosiect ar ran Partneriaeth Ogwen,

"Mae hwn yn brosiect heriol ond rydym yn falch fod Partneriaeth Ogwen wedi cydweithio gyda chyllidwyr i sicrhau cyllid i brynu a gwella hen adeilad sydd wedi bod yn segur ar y Stryd Fawr ers blynyddoedd. Byddai'r adeilad yma wedi gallu cael ei droi'n fflatiau gan effeithio ar gymeriad ac economi'r Stryd Fawr felly rydym yn falch o allu cadw'r gofod dan berchnogaeth gymunedol ac er budd y gymuned."



## Penodi Pensaer a Thîm Dylunio

Yn sgil derbyn y caniatâd cynllunio, rydym yn awr wedi penodi Tîm Dylunio arbenigol dan arweiniad penseiri PegwA i fwrw ymlaen gyda dyluniadau technegol i'w cyflwyno am ganiatâd rheolaeth adeiladu o fewn y mis nesaf. Mae Elinor Gray-Williams y prif bensaer yn bensaer cadwriaethol cydnabyddedig sydd wedi ennill gwobrau cenedlaethol am ei phensaerniaeth. Mae hi'n angerddol dros ddatblygu adeiladau sy'n gydnaws â threftadaeth yr ardal a hi yw awdur 'Canllaw Dylunio Cymunedau Llechi Gwynedd – Gofal a Chadwraeth' – dogfen arweiniol a gomisiynwyd gan Gyngor Gwynedd yn sgil dynodiad y safle treftadaeth byd i'r broÿdd chwarelyddol.




Parhau ar t3

# Llais Ogwan

## Rhif 550
Chwefror 2024


### Panel Golygyddol

**Ieuan Wyn**
(Ffôn 600297)
ieuanwyn01@gmail.com
**Lowri Roberts**
(Ffôn 07815 093955)
l.roberts11@btinternet.com
**Neville Hughes**
(Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com
**Dewi A Morgan**
(Ffôn 602440)
dewimorgan@live.co.uk
**Trystan Pritchard**
(Ffôn 07402 373444)
trystanrp1@gmail.com
**Walter a Menai Williams**
(Ffôn 601167)
waltermenai@yahoo.co.uk
**Rhodri Llŷr Evans**
(Ffôn 07713 865452)
Rhodri.llyr.evans@gmail.com
**Owain Evans**
(Ffôn 07588 636259)
owain.evans1@gmail.com
**Carwyn Meredydd**
(Ffôn 07867 536102)
carwynian@hotmail.com
**Rhys Llwyd**
(Ffôn 01248 601606) rmll42@live.co.uk
**Catrin Wager**
(Ffôn 07366 418318)
catrinwager@yahoo.co.uk

### Swyddogion

**CADEIRYDD**
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3DT (Ffôn 602440)
dewimorgan@live.co.uk

**TREFNYDD HYSBYSEBION**
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA (Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com

**YSGRIFENNYDD**
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH (Ffôn 601415)
garethllwyd197@btinternet.com

**TRYSORYDD:**
Paul Rowlinson, Crud yr Awel,
Lôn Newydd, Coetmor,
Bethesda LL57 3DT
(Ffôn 01248 605365 / 07949 034967)
PaulJRowlinson@outlook.com


### Y Llais drwy'r post:

Owen G Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3NN (Ffôn 600184)
post@llaisogwan.com

## Golygydd y Mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan
**Walter a Menai Williams.**

Y golygydd ym mis **Mawrth** fydd
**Catrin Wager,** Tŷ Mawr, Ffordd Coetmor,
Bethesda, LL57 3NF.
07366 418318
E-bost: catrinwager@yahoo.co.uk

Pob deunydd i law erbyn **dydd Sadwrn, 24 Chwefror** os gwelwch yn dda.
Casglu a dosbarthu **Nos Iau, 14 Mawrth,** yn llawr uchaf Canolfan Cefnfaes am 6.45

**DALIER SYLW:** NID OES GWARANT Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD CAU YN CAEL EI GYNNWYS.

## CLWB CYFEILLION

**Gwobrau Chwefror**

| | | |
|---|---|---|
| £30.00 | (162) | Linda Brown, Gwernydd. |
| £20.00 | (81) | Gwenno Jones, Gerlan. |
| £10.00 | (32) | Blodwen Dignam, Bethesda. |
| £5.00 | (60) | Gomer Davies, Tregarth. |

## Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â swyddfa Cymdeithas Deillion Gogledd Cymru, Bangor (01248 353604).

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:
**Gareth Llwyd** – 601415
**Neville Hughes** – 600853

## Archebu trwy'r post

**Gwledydd Prydain**
Yn anffodus, oherwydd cynnydd aruthrol diweddar yng nghostau postio, 'rydym wedi cael ein gorfodi i godi ein pris o'r £27 arfaethedig i £35 am y flwyddyn 2024.





NEUADD OGWEN

Nos Iau,Chwefror 29

19.30 £6/£3

Ffilm o'r sioe lwyfan yn Pontio. English subtitles/Isdeitlau Saesneg


# Dyddiadur y Dyffryn

**Chwefror**

16 Noson yng nghwmni Meinir Gwilym. Neuadd Ogwen
22 Cyfarfod Blynyddol Plaid Cymru Dyffryn Ogwen. Cefnfaes (llawr uchaf) am 7.00.
24 Bore Coffi Eglwys Crist Glanogwen. Festri Jerusalem. 10.00 – 12.00.
26 Clwb Coffi Talybont. Festri Bethlehem am 10.30.
27 Gyrfa Chwist, Cefnfaes am 7.00.

**Mawrth**

01 Neuadd Ogwen. Bob Delyn a'r Ebillion.
02 Neuadd Ogwen. Gig gyda Melys, Pys Melyn a Sophie Kilburn
04 Merched y Wawr Tregarth. Dathlu gwyl Ddewi. Festri Shiloh am 7.00.
07 Sefydliad y Merched Carneddi. Festri Jerusalem am 7.00
09 Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen. 9.30 – 1.00.
11 Clwb Coffi Talybont. Festri Bethlehem am 10.30.
12 Gyrfa Chwist. Cefnfaes am 7.00.
14 Cymdeithas Jerusalem. Y Festri am 7.00.
14 Noson Gasglu a Dosbarthu Llais Ogwan. Llawr Uchaf Cefnfaes am 6.45.
25 Clwb Coffi Talybont. Festri Bethlehem am 10.30.

**Ebrill**

06 Bore Coffi Plaid Cymru. Cefnfaes (Llawr Uchaf). 10.00 – 12.00.
20 Dathlu Pen-blwydd Ysgol Rhiwlas yn 150 oed. 1.00 – 3.00.

## Rhoddion i'r Llais

| | |
|---|---|
| £20.00 | Er cof annwyl am briod, mam a nain annwyl, Eirlys Roberts, Cilfodan a fu farw 10 Chwefror 2016, oddi wrth Vic a'r teulu. |
| £25.00 | John Ffrancon Davies, Windsor (Maes Coetmor gynt), er cof am Dr. J. Elwyn Hughes. |
| £2.30 | Helen, 1 Abercaseg. |
| £2.30 | Avril, 12 Abercaseg. |
| £5.30 | Dennis a Ceri Dart, Rhos y Nant. |
| £14.50 | Steven Edwards |
| £12.30 | Doris Shaw, Arafa Don. |
| £30.00 | Er cof am J.O. Roberts, oddi wrth Wendy, John a'r teulu, Garneddwen. |

**Diolch yn fawr**


Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Parhad o'r dudalen flaen

Bwriad y Bartneriaeth yn awr yw cydweithio gyda'r gymuned i ddatblygu'r ganolfan dreftadaeth a bydd cyfres o weithdai a digwyddiadau ymgysylltu yn cael eu cynnal i sicrhau llais y gymuned yn natblygiad y gofod treftadaeth. Mae staff a gwirfoddolwyr lleol wrthi'n trefnu rhaglen o ddigwyddiadau a sesiynau ble byddwn yn cofnodi hanesion lleol. Byddwn hefyd yn ymweld â grwpiau gwahanol a chynnal stondinau mewn digwyddiadau cymunedol ar draws y Dyffryn. Ar ddydd Sadwrn yr 17eg o Chwefror, bydd sesiwn wybodaeth yn cael ei chynnal rhwng 10yb a 2yp yng Nghanolfan Gorffwysfan ar Stryd Fawr, Bethesda ble bydd cyfle i weld y dyluniadau diweddaraf a rhannu hanesion a syniadau. Bydd staff a gwirfoddolwyr prosiect Yr Hen Bost ar gael ar y dydd i ateb cwestiynau a thrafod syniadau.

Meddai Dyfrig Jones, Cadeirydd Partneriaeth Ogwen ac aelod o Grwp Llywio Prosiect Yr Hen Bost,

"Mae hwn yn gyfle euraidd i ddatblygu adeilad eiconig fydd yn adnodd gwerthfawr i'r ardal. Rwy'n annog pobl i gymryd diddordeb yn y prosiect ac edrychwn ymlaen i drafod efo trigolion a chymdeithasau lleol a gweithio efo cyllidwyr y prosiect dros y flwyddyn gyffrous nesaf."

Am fwy o wybodaeth am ddatblygiad Yr Hen Bost, mae croeso i chi gysylltu gyda ni trwy ebostio partneriaeth@ogwen.org neu ffonio 01248 602131.

Annwyl Olygydd,

**BLASU HANES LLEOL**

Nos Fercher ddechrau'r mis yma cafodd pobl y fro fwynhau gwledd wedi'i darparu gan Glwb Hanes Rachub a Llanllechid. Nid gwledd o gigoedd a llysiau oedd hon ond gwledd i'r cof a'r meddwl.

Yr achlysur oedd sgwrs gan Dr Meirion Davies, Bangor ar hanes dwy ysgol yn Rachub a Llanllechid, sef Ysgol yr Eglwys a'r ysgol Fwrdd neu Frytanaidd yn ystod cyfnod 'streic' Chwarel y Penrhyn.

Roedd Meirion Davies wedi cloddio mewn llyfrau log o'r ddwy ysgol yn y cyfnod ac wedi codi ffeithiau diddorol amdanyn nhw a sut effeithiodd y streic neu'r cload allan ar deuluoedd a phlant yn yr ardal.

Mewn un lle dyfynnodd o lyfr log Ysgol yr Eglwys lle roedd y prifathro wedi ysgrifennu (yn Saesneg) frawddeg i'r perwyl:-

*"Many children have left this school because there are too many 'cynffonwrs' here"*


Mae'n sôn fel roedd plant a hyd yn oed athrawon yr ysgol yn cael eu camdrin gan blant y 'streicwyr' ac fel y gadawodd rhai cannoedd o bobl yr ardal i fynd i dde Cymru ac America i geisio gwell bywyd. Oes yna wers yn y fan yna i' n hoes ni pan mae casineb at fewnfudwyr mor gyffredin yn Ewrop ac America?

I gloi hoffwn longyfarch Clwb Hanes Rachub a Llanllechid a'r swyddogion fel Dilwyn Pritch, yr ysgrifennydd a MarianJones, am ddarparu nosweithiau mor ddifyr â hyn. Mae Marian ei hun wedi cyhoeddi llyfryn o hen luniau a hanesion rhai o brif adeiladau a chymeriadau ardal Rachub ac mae'n gofnod diddorol a llawn lluniau o'r fro a'r cyfan am bris rhesymol iawn o £5.Roedd prif lolfa fawr Clwb Criced a Bowlio Bethesda yn orlawn ar y noson ac yn tystio i boblogrwydd hanes lleol ymhlith pobl o bob cefndir a diddordeb. Gwych iawn!

Yn gywir,

Un a fu yno.

[Derbyniwyd enw a chyfeiriad 'Un a fu yno'. Gol.]



# Gofod Gwnïo

Mae'r Gofod Gwnïo yn ôl yng Nghanolfan Cefnfaes ar ei newydd wedd. Wedi cychwyn ar 31 Ionawr, bydd ein clwb crefftau cymunedol yn cyfarfod bob yn ail nos Fercher o 7-9.

Bydd peiriannau gwnïo ar gael i'w defnyddio ac er y bydd gwnïwyr mwy profiadol wrth law i gynghori os oes angen, ni fydd hwn yn ddosbarth gwnïo. Mae croeso i bob math o brosiectau crefft - o frodwaith i grosio, "punch needle" i uwchgylchu dillad.

Mae'r grŵp hwn ar gyfer oed 15+. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â gofod@ogwen.org - gobeithio eich gweld chi yno!




# CYD REOLWYR DATBLYGU YNNI OGWEN



Llongyfarchiadau i Dafydd Meurig a Walis George ar gael eu penodi yn Gyd-Reolwyr Datblygu Ynni Ogwen. Yn dilyn cais grant llwyddiannus i Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru, mae'r fenter ynni cymunedol wedi penodi'r ddau gyd reolwr datblygu newydd i arwain gwaith Heuldro - sef cynllun i ehangu cynhyrchiant ynni solar yn y Dyffryn. Mae hyn yn adeiladu ar waith da Ynni Ogwen yn gosod 26KW o baneli solar ar adeiladau cymunedol yn 2020. Bwriad y fenter yn awr, gyda chymorth Dafydd a Walis yw ehangu'r math yma o osodiadau gan weithio gyda adeiladau cymunedol a masnachol yn y Dyffryn.

Meddai Gareth Cemlyn Jones, Cadeirydd Ynni Ogwen,

"Mae Ynni Ogwen yn ymrwymiedig i gynyddu cynhyrchiant ynni adnewyddadwy yn y Dyffryn ac edrychwn ymlaen i weithio gyda adeiladau cymunedol a busnesau lleol i ehangu cynllun Heuldro. Bydd hyn yn helpu'r adeiladau i fod yn fwy cynaladwy a lleihau eu biliau ynni."

Am fwy o wybodaeth am y cynllun, cysylltwch a ynni@ogwen.org

## Rachub a Llanllechid

**Emlyn Williams**, Pont Llan, Llanllechid, Bangor, LL57 3LE (07887624459)
henbarc13@gmail.com

### Capel Carmel

Gwasanaethau (am 5 o'r gloch oni nodir yn wahanol)
Chwefror 18: Oedfa.
Chwefror 25: Parchg. Olaf Davies.
Mawrth 3: Parchg. Nerys Griffith.
Mawrth 10: Parchg. Sara Roberts.
Mawrth 17: Oedfa.

CROESO CYNNES I BAWB
Ysgol Sul am 10.30yb.
Clwb Dwylo Prysur, Nos Wener am 6.30yh.

Dymuna Sandra Howel roi gwybod i bawb sydd yn ei hadnabod ei bod wedi symud o Fethesda i Cae Rhosydd, Rachub.

**Profedigaeth**
Daeth ton o dristwch dros Gymru gyfan pan ddaeth y newyddion am farwolaeth y gantores Leah Owen. Bu ei chyfraniad i gerddoriaeth yng Nghymru yn aruthrol, a gwelir ei cholli gan nifer fawr o'i chyd-ddisgyblion. Ond mae'r golled yn fwy fyth i'w theulu, yn eu mysg ei gŵr, Eifion Lloyd Jones, ei merched, Angharad Llwyd, Llwyn Bedw, ac Elysteg, ei meibion Ynyr a Rhys, a Gwenno a Gruff ymysg ei hwyrion a'i hwyresau. Cynhaliwyd gwasanaeth coffa arbennig iddi yn y Capel Mawr, Dinbych, ddydd Iau, Ionawr 18fed, pryd y daeth tyrfa enfawr i ffarwelio ag un hynod o annwyl. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf, a'n cofion cywiraf atoch fel teulu.

**Carmel Llanllechid**
Cofion at aelodau sydd heb fod yn teimlo yn dda yn ystod yr wythnosau diwethaf yma, yn eu mysg Mr Joe Hughes, Mrs Rhian Roberts a Mrs Nia Ellis-Williams. Mae Mrs Valerie Thomas wedi cael ei symud o Ysbyty Gwynedd i Ysbyty Allt Wen ym Mhorthmadog. 'Rydym ni'n falch iawn o glywed ei bod hi'n dechrau cryfhau ac y cawn ei gweld yn dod adref cyn bo hir. Dymuniadau gorau atoch i gyd.

Clwb Hanes Rachub a Llanllechid

NOS FERCHER, CHWEFROR 28AIN 2024
am 7 o'r gloch yn y Clwb Criced
Bydd sgwrs gan
CADI IOLEN

'Pum Deg Mlynedd o Gasglu - Amgueddfa Lechi Cymru'
CROESO CYNNES!

Llongyfarchiadau i Wendy a Ron Jones ar ddod yn nain a thaid unwaith eto. Mae Laura eu merch wedi rhoi genedigaeth i hogyn bach, Cai. Croeso mawr i Cai a dymuniadau da i Laura a'i gŵr Tom, ac Eira, chwaer fawr Cai ar eu haelwyd yn Vancouver, Canada.

**Yr Ysgol Sul**
"O byddwch yn garedig iawn wrth bob creadur byw, Mae'r rhain i gyd yn annwyl iawn gan Dduw, ein Harglwydd Iôr"
Dyma'r thema sydd gennym ni wedi bod dros wythnosau diweddar. Mae'r plant wedi dod â lluniau o'u hanifeiliaid anwes i'r Ysgol Sul, ac 'rydym ni'n gobeithio cael mynd i weld rhai ohonyn nhw, ac y bydd rhai o'r cŵn yn gallu dod am dro i'n gweld ni yma yn yr Ysgol Sul!
Dyma luniau rhai ohonyn nhw:


Y gath lwyd a gwyn sy'n dod i ymweld am ei bod hi'n gwybod bod tamaid bach blasus i'w gael.


Dwynwen y mul bach wedi cael het Siôn Corn yn anrheg gan y plant.


Dela yw hon, ci bach Elsi a Beti.


Inca yw cath Efa a Nel.

MODURDY FFRYDLAS
Profion M.O.T.
PERCHNOGION
A.LL. ac R.W. WILLIAMS
Stryd Fawr, Bethesda
PROFION M.O.T.
GWASANAETH ATGYWEIRIO
TEIARS A BATRIS
GWASANAETH TORRI I LAWR
NEU DDAMWAIN
Ffôn: 600 723
E-bost: ffrydlas@btconnect.com

SIOP OGWEN
yn cynnig gwasanaeth
CLIC A CHASGLU
Llawer o Nwyddau Newydd gan Grefftwyr Newydd wedi cyrraedd y siop
Hefyd
Llu o gardiau cyfarch ar gyfer pob achlysur.
Cysylltwch â'r siop ar y ffôn
07394 905881
neu E-bost siop@ogwen.org
i drafod beth sydd ar gael ac i wneud trefniadau casglu a thalu
CEFNOGWCH WASANAETH LLEOL

# YSGOL LLANLLECHID

### Cydymdeimlad
Cydymdeimlwn yn ddwys â theulu Vivian Allan Jones, Huw, Rhys a'u teuluoedd. Clywsom am y newyddion trist fod yr annwyl Menna Jones wedi ein gadael adeg y Nadolig. Mae gennym atgofion hapus am Menna, a chofiwn amdani'n darlithio yn y Brifysgol, ac yn dod i Ysgol Llanllechid i'n helpu drwy drafod ei hanturiaethau ym Mheriw. Coffa da am wraig arbennig.

### Newyddion Trist
Bu mis Ionawr yn hen fis creulon, a chlywsom am farwolaeth Leah Owen, mam Angharad Llwyd, a nain Gwenno a Gruff. Roedd Leah Owen yn adnabyddus i ni i gyd, ac yn ymwelydd cyson â'n hysgol pan oedd Gruff a Gwenno yn perfformio yn y gwahanol gyngherddau. Gwraig annwyl ac amryddawn. Anfonwn ein cofion annwyl at y teulu.

### Cyngerdd Pontio
Cafwyd cyngerdd i'w gofio yn Theatr Bryn Terfel ar Ragfyr 19. Roedd hi'n bleser cael rhannu llwyfan efo Côr y Penrhyn, a'r unawdydd dawnus Owain Arwel Davies. Diolchwn i chi i gyd fel cymuned am ddod draw i'n cefnogi; nid ar chwarae bach mae llenwi seddau yn Pontio! Diolch arbennig i'n disgyblion am eu holl ymdrechion o dan arweinyddiaeth medrus Mrs Delyth Humphreys. Diolch hefyd i Ms Rhiannon Williams am ei dawn wrth y piano, ac am gyfansoddi'r garol heddwch. Cafwyd perfformiadau grymus gan Gôr y Penrhyn gyda Fran Davies yn cyfeilio, a sain y plant a'r côr hefo'i gilydd yn codi croen gwydd! Diwedd ardderchog i dymor prysur! Diolch i bawb am eich cefnogaeth.

### Santes Dwynwen
Cafwyd diwrnod byrlymus, a bu aelodau'r Cyngor Ysgol yn brysur yn trefnu disgo o ganeuon Cymreig! Pawb wrth eu boddau, a'r ysgol yn llawn o galonnau pinc a choch!



## Cnwd o Eira Gwyn
Disgynnodd yr eira, ac er nad arhosodd yn hir, cafwyd modd i fyw yn taflu peli eira!

### Ysgol Dyffryn Ogwen
Mae dosbarth Mr Sion Llywelyn (Blwyddyn 4) yn edrych ymlaen at fynd draw i Ysgol Dyffryn Ogwen yn fuan!

### Ysgol Eco
Bu rhai o ddisgyblion y Grwp Eco yn mynd o amgylch Lon Bach Odro a Maes Bleddyn yn casglu sbwriel gyda'r Cynghorydd Paul Rowlinson. Llwyddwyd i gasglu llond 12 bag du! Da iawn chi! Cofiwch atgoffa pawb i roi unrhyw sbwriel mewn biniau!

### Calennig
Ymddangosodd penglog yr hen geffyl, a dysgwyd am draddodiadau'r Hen Galan! Blwyddyn Newydd Dda i un ac oll!

### Diolch am Wasanaeth Clodwiw
Diolchwn i Mr Walter Williams am yr holl flynyddoedd o wasanaeth arbennig i Ysgol Llanllechid, fel Cadeirydd y Llywodraethwyr. Bu cyfraniad Mr Williams yn gadarn, yn ddoeth a phwyllog, a bu'n gefn i ni fel ysgol ar hyd y blynyddoedd. Diolch i chi o waelod calon. Edrychwn ymlaen at gael gyfle i'ch anrhegu'n fuan yn neuadd yr ysgol.



### Ysgol y Goedwig
Lapiodd pawb o ddosbarth Mrs Nerys Tegid yn gynnes ar gyfer diwrnod Ysgol y Goedwig. Dysgwyd pob math o sgiliau, ac er ei bod yn ddiwrnod rhynllyd, roedd yr awyr yn las a'r gweithgareddau yn mynd rhagddynt yn wych!

### Bingo Pasg
Edrychwn ymlaen at ein Bingo Pasg blynyddol, a gynhelir ar Fawrth 14. Drysau yn agor am 5.30pm. Diolch i Mrs Ceri Evans a'r Cyfeillion am drefnu.

### Llyfr Mawr y Plant
Bu Mared Llywelyn, Leo Simone ac Elin Burnell yn siarad ar raglen newyddion S4C am bwysigrwydd edrych ar ôl y goeden hynafol ym Mharc Meurig, neu barc 'Llyfr Mawr y Plant' i'n plantos ni. Siaradodd y tri yn huawdl, ac roedd diddordeb eithriadol yn stori Mared Llywelyn, gan fod J.O.Williams yn hen daid iddi!





Gareth Williams
TREFNYDD ANGLADDAU
Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda
600763 neu 07708 008051
GWASANAETH DYDD A NOS

## Glasinfryn a Chaerhun

**Mair Griffiths**, (352966)
mairpenybryn@gmail.com

**Caffi Babis ar y Lôn**

Mae Cyngor Gwynedd yn cydweithio gyda Caffi Babis ar y Lôn i ddod â sesiynau newydd am ddim i rieni a phlant rhwng 0 a 3oed yng Nghanolfan Glasinfryn. Mae hwn yn gynllun peilot lle mae'r Cyngor yn ceisio cydweithio ag amrediad o ddarparwyr i gynnig amryw o wahanol sesiynau. Cynhelir y sesiynau ar 8 a 22 Mawrth 2.30 yp. Byddant yn para am awr, a bydd paned/diod oer a lluniaeth ysgafn ar gael i'r rhieni a'r plant ar y diwedd. Bydd Ymwelydd Iechyd hefyd yn dod i bob sesiwn, a bydd cyfle i rieni drafod unrhyw anghenion mewn awyrgylch anffurfiol. Am fwy o wybodaeth ffoniwch 07815553473.

**Cylch Glasinfryn**

Cyfarfu'r Cylch yn y Ganolfan ar 8 Ionawr gyda Mair yn croesawu'r aelodau ac ymwelwyr i'r cyfarfod cyntaf y flwyddyn newydd. Atgoffwyd pawb mai'r cyfarfod blynyddol fydd ar 14 Chwefror a gofynnwyd i'r aelodau feddwl am siaradwyr ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Llinos Morris oedd ein siaradwraig am y pnawn. Mae Llinos yn gweithio ym Mhrifysgol Bangor fel cwnselydd llês myfyrwyr. Cafwyd pnawn difyr iawn yn gwrando a gwylio lluniau yr oedd Llinos wedi'u darparu ar hanes ei bywyd, ac 'roedd yn wir wedi cael bywyd hynod llawn ac anturus cyn iddi setlo i weithio yn y Brifysgol y flwyddyn diwethaf! Paciodd Llinos ei bag pan yn 19eg oed i deithio "Llwybr Livingstone" yn Ne Affrica gan weithio ei ffordd o Johannesburg i fyny am Botswana a Zimbabwe. Yn ystod ei thaith gweithiodd gyda sawl prosiect gymunedol a chyfarfu gyda phobl o bob math o wahanol gefndiroedd, cyfoeth a chredoau. Aeth ymlaen o Affrica ar deithiau i wledydd eraill fel Biafra ac India ac yno tra'n gofalu am rai tlawd ac anghenus teimlodd ei fod yr un mor bwysig gofalu yn ysbrydol yn ogystal a chynnal tai ac iechyd. Pan ddychwelodd adref aeth i Goleg Llandrillo i astudio cwrs "Cyflwyniad i Gwnsela" a arweiniodd iddi weithio yng Nghanolfan Noddfa yng Nghaernarfon. Yna ymlaen o'r fan yno i wneud Gradd Meistr yn y Brifysgol ym Mangor, ble mae hi nawr yn gweithio gyda Gwasanaeth Llês Myfyrwyr.

Diolchwyd i Llinos am sgwrs hynod o ddiddorol a bywiog gan Jocelyn.

Mair a Glenys ddarparodd y baned a chacen, gyda Mair yn ennill y Raffl.

Bydd cyfarfod 13 Mawrth am 12.30yp, pryd y byddwn yn dathlu Gŵyl Dewi gyda Chawl ac efallai Cân! Croeso cynnes iawn i bawb ymuno â ni yn y Ganolfan.

**Profedigaeth**

Daeth newyddion trist am farwolaeth Gavin Roberts yn 73 oed, yn enedigol o Tan y Bryn, Waen Wen. 'Roedd yn fab i'r diweddar John a Rhodewen Roberts, Tan y Bryn, a brawd i Marian. Bu'r angladd yn eglwys St Cedol, Pentir ar 24 Ionawr. Cofiwn am Gavin fel person annwyl a chyfeillgar, ac yn hoff iawn o fynd o gwmpas y fro gyda'i gamera, gan iddo fod yn ffotograffydd o fri! Anfonwn ein cydymdeimlad at y teulu i gyd yn eu colled a'u hiraeth.

**Yn yr Ysbyty**

Dymuniadau gorau am adferiad buan i Carol Jones, Heulfan, Glasinfryn, sydd yn glaf yn Ysbyty Gwynedd Bangor.

**Cân a Sgwrs**

Mae cyfres o sesiynau canu wedi cychwyn yn y Ganolfan gyda Marian Bryfdir. Bwriad y sesiynau yw dysgu sut i ddefnyddio'r llais a chael hwyl gyda chyfle i sgwrsio a chael paned! Pob llwyddiant i'r fenter - braf gweld y Ganolfan yn cael ei defnyddio.

**Bingo**

Bwriedir ail ddechrau y Bingo Bach ddiwedd y mis. Edrychwch allan am y dyddiad ar yr hysbysfyrddau yng Nglasinfryn a Chaerhun! Byddwn yn ddiolchgar iawn am gyfraniadau tuag at y Bingo, Tombola a Raffl.

# YSGOL RHIWLAS



**Manon Steffan Ros**

Fel ysgol rydym yn ymfalchïo yn llwyddiant un o'n cyn-ddisgyblion, sef Manon Steffan Ros. Fel y gwyddom enillodd Manon Fedal Yoto Carnegie am Ysgrifennu yn 2023 gyda'i chyfieithiad ei hun o Llyfr Glas Nebo, 'The Blue Book of Nebo'. Yn dilyn ennill y wobr cafodd Manon rodd hael o docynnau llyfr gan y Cyngor Llyfrau, iddi roi'n rhoddion i lyfrgell o'i dewis. Rydym yn hynod ddiolchgar bod Manon wedi cyfrannu tocynnau llyfrau i lyfrgell Ysgol Rhiwlas, a braf oedd croesawu Manon yn ôl i'r ysgol i gyflwyno'r rhodd.

**Pen-blwydd arbennig Ysgol Rhiwlas**

Eleni mae Ysgol Rhiwlas yn dathlu carreg filltir go arbennig – sef ei phen-blwydd yn 150 oed. Golyga hyn bod Ysgol Rhiwlas yn hŷn na Phier y Garth ym Mangor, Prifysgol Bangor, y Royal Albert Hall, y Tŵr Eiffel, a hyd yn oed y Statue of Liberty!

I nodi'r achlysur fe fydd y disgyblion yn brysur trwy gydol y flwyddyn yn dysgu am fywyd ysgol yn y cyfnod Fictoriannaidd, yn creu cân newydd ar gyfer yr ysgol, ac yn gwneud gwaith creadigol megis celf ac ysgrifennu.

Mae gwahoddiad i'r gymuned ymuno yn y dathliadau drwy ymweld â'r ysgol dydd Sadwrn 20fed Ebrill rhwng 11am – 3pm. Dyma gyfle i chi grwydro a hel atgofion dros baned a theisen, a phori drwy ffotograffau archif o'r ysgol.

Os oes gennych chi neu aelod o'ch teulu ffotograffau o Ysgol Rhiwlas byddem wrth ein boddau eu gweld. Plîs gyrrwch gopïau at ysgolrhiwlasyn150@outlook.com

Felly cofiwch y dyddiad - dydd Sadwrn, 20fed Ebrill rhwng 11am – 3pm, prynhawn agored Ysgol Rhiwlas.

**Eisteddfod yr Urdd**

Mae Eisteddfod yr Urdd ar y gorwel, ac mae disgyblion Ysgol Rhiwlas wrthi'n brysur yn ymarfer! Pob hwyl i bawb gyda'r gwaith dysgu.

# Rhiwlas

**Annes Glynn**, Bwthyn Cefn Braich,
Rhiwlas LL57 4HB
annes.glynn@gmail.com (01248) 351015

**Diolch o galon, Iona**
Fel y gwelwch o'r manylion uchod mae Iona, fu'n gyfrifol am gasglu newyddion Rhiwlas ers sawl blwyddyn i'r 'Llais', bellach wedi trosglwyddo'r awenau ac yn edrych ymlaen at egwyl haeddiannol iawn dw i'n siŵr! Dechreuodd Iona ar y gwaith drwy gynorthwyo'r diweddar annwyl John Huw Evans, yntau'n ohebydd cydwybodol am flynyddoedd lawer, cyn ysgwyddo'r baich ei hun ymhen amser. Braint i mi yw cael dilyn y ddau. Dw i'n sylweddoli fod gen i esgidiau mawr iawn i'w llenwi ond gyda'ch cymorth chi, gyd-bentrefwyr, dw i'n edrych ymlaen at gofnodi'r amrywiaeth o bethau difyr sy'n digwydd yn Rhiwlas o fis i fis. Mae 'na ymdeimlad cryf o gymuned yn y pentref y dyddiau yma a phob math o weithgareddau amrywiol yn cael eu cynnal, a dw i'n ffyddiog na fydd prinder newyddion rhwng popeth. Cofiwch gysylltu!

Yn y cyfamser diolch o galon i ti, Iona, am fod yn llais i Rhiwlas yn y 'Llais'. Mae'n dyled yn fawr iti.

**Palas Print**
Cafodd rhai o ddisgyblion Ysgol Rhiwlas gyfle i fynd i siopio ym mis Ionawr – siopio am lyfrau. Gan fod Manon Steffan Ros wedi rhoi tocynnau llyfrau yn rhodd i'r ysgol, roedd angen gwario! Croesawyd y disgyblion i siop Palas Print yng Nghaernarfon, ble cawsant fore gwerth chweil yn pori drwy'r silffoedd a phrynu llyfrau o'u dewis. Diolch i staff Palas Print am y croeso cynnes, a Manon am y rhodd caredig. Mae llyfrgell yr ysgol yn werth ei gweld!

**Clwb Cerdd**
Os ewch heibio Ysgol Rhiwlas ar brynhawniau Mercher byddwch yn siŵr o glywed synau peraidd yn dod drwy'r drws... beth sydd yn mynd ymlaen tybed? Wel, Clwb Cerdd newydd sbon dan arweiniad Mrs Alty. Braf yw gweld y disgyblion yn arbrofi gydag offerynnau megis drymiau, piano, a gitâr. Daliwch ati bawb!

**Dyddiadur y Dyffryn**
20fed Ebrill 2024, Diwrnod agored Ysgol Rhiwlas (dathlu penblwydd 150 yr ysgol), 11am – 3pm, Ysgol Rhiwlas




**Pen-blwydd Hapus!**
Llongyfarchiadau cynnes iawn i Mrs Myra Jones, Glenlyn, Bron y Waun a ddathlodd ei phen-blwydd yn 95 oed ym mis Ionawr. Da clywed eich bod bellach adref o'r ysbyty, Myra, ac mewn hwyliau da. Ein cofion annwyl atoch.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau fil i Mari a Ken Thomas, Caeau Gleision, ar enedigaeth wyres, Talia Mair, yn Llanrug yn ddiweddar. Mwynhewch y magu!

Llongyfarchiadau hefyd i Dylan Alford, 8 Caeau Gleision, sydd wedi pasio ei brawf gyrru.

**Merched y Wawr**
Cyfarfu'r aelodau dros baned anffurfiol ym mis Ionawr gan edrych ymlaen at weithgareddau'r flwyddyn newydd. Y mis yma, 'Crempogau Traddodiadol' oedd testun blasus y cyfarfod dan ofal Kate Wheelock. Ar Fawrth 12 bydd Carys ac Annes yn cynnal sesiwn yn dwyn y teitl 'Llenyddiaeth i'n Diddanu'. Mae'r gangen yn cyfarfod yn y Neuadd ar yr ail brynhawn Mawrth yn y mis am 1.30 o'r gloch. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd.

**Cydymdeimlad**
Anfonwn ein cydymdeimlad cywir i Nia, Aled, Elain a Sion, Bron y Waun. Bu farw tad Nia, Arthur Owen, oedd yn byw ym Môn, yn ddiweddar.

**Ar y teledu**
Braf iawn oedd gweld Iwan Steffan yn cael ei holi ar y rhaglen 'Heno' ddechrau Ionawr. Mae Iwan, sy'n byw yn Lerpwl ers rhai blynyddoedd bellach, yn gynhyrchydd cynnwys ac yn flogiwr. Roedd yn trafod ei antur ddiweddaraf sef cyflwyno'r gyfres 'Sêr Steilio' ar S4C gyda Mirain Iwerydd. Llongyfarchiadau iti Iwan!

**Brysia wella**
Cafodd Gareth Williams, Caeau Gleision, anffawd tra'n beicio mewn tywydd rhewllyd yn y pentref fis Ionawr. Anafodd ei law ond da deall ei fod yn mendio erbyn hyn, Gareth.

**Yoga Nala, Neuadd Bentref Rhiwlas**
Mae 'Yoga Nala' bellach yn cynnal sesiynau ddwywaith yr wythnos yn Neuadd Bentref Rhiwlas – nos Lun 7.30yh – 8.30yh, a nos Fercher 7.30yh – 8.30yh. Mae'r dosbarth yn addas ar gyfer dechreuwyr a rhai sydd wedi ymarfer yoga ers tro. Braf gweld y dosbarthiadau yn mynd o nerth i nerth. Cofiwch fod llu o weithgareddau eraill yn cael eu cynnal yn y Neuadd drwy'r wythnos hefyd. Am y manylion diweddaraf i gyd ewch i wefan y Neuadd ar neuaddrhiwlas.cymru

**BYSUS D. P. OWENS RHIWLAS**



01248 361044
07771 634195

Bysus o 25 i 57 sedd ar gael ar gyfer eich holl anghenion teithio - tripiau, priodasau, partion ac ati.

*Bysus Gwyrdd Rhiwlas*

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY SEFYDLWYD 1997
PERCHENNOG: DERFEL OWENS

1969
**M.HUGHES A'I FAB**

**CONTRACTWYR TOI**
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda ☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
garribryn@aol.com

Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio. Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant. Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.

# YSGOLION ABERCASEG A PHENYBRYN

### Penwythnos Gwylio Adar Yr Ardd

Er mwyn dathlu Penwythnos Gwylio Adar Yr Ardd RSPB mae criw o blant wedi bod yn brysur yn chwilio am adar a chofnodi pob un ar eu rhestr. Maent hefyd wedi bod yn dysgu gwahanol enwau adar a'u labelu

### Gwasanaeth Dosbarth Ffrancon

Fel rhan o'u thema 'Y Tri Mochyn Bach' mae dosbarth Ffrancon wedi bod yn brysur yn dysgu'r stori ar eu cof gan ddefnyddio amryw o symudiadau. Cafwyd cyfle i berfformio'r stori mewn gwasanaeth ysgol lle'r oedd pawb wedi gwirioni gyda'u hymdrechion. Da iawn chi Dosbarth Ffrancon!










SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru

Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando

Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos

0808 164 0123

Gwefan: www.samariaidbangor.cymru


### Croeso'n ôl

Braf oedd croesawu pawb yn ôl i'r ysgol ar ôl gwyliau'r Nadolig a chlywed eu hanesion – roedd pawb wrth eu boddau gyda'u anrhegion gan Siôn Corn.

### Criw Cymru Cŵl

Cafodd Criw Cymru Cŵl eu hethol yn ddiweddar- llongyfarchiadau Caleb, Catrin, Isla, Mason a Loti. Bu'r Criw yn cadw'n brysur yn syth gan fynd ati i baratoi gweithgareddau gwych ar gyfer dathlu diwrnod Santes Dwynwen. Bu rhai yn brysur yn gwrando a darllen y stori, gwneud cardiau ac wrth gwrs dawnsio a chanu mewn disgo! Nawr mae'r sylw yn troi at ddarparu gweithgareddau ar gyfer dathlu Diwrnod Miwsig Cymru!







# Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn



## Clwb Coffi Talybont

YN FESTRI BETHLEHEM

Boreau Llun, 10.30 – 12.00

**Chwefror 26**

**Mawrth 11 a 25**

Croeso cynnes i bawb

## CANOLFAN CEFNFAES

## Gyrfa Chwist

Chwefror 27

Mawrth 12 a 26

am 7 o'r gloch. Croeso i bawb

## FESTRI CARMEL



Cynhelir

TE BACH

**Dydd Llun, 19 Chwefror**

2.30 – 4.00

Croeso i bawb.

## CYMDEITHAS HANES DYFFRYN OGWEN

**Dr. Dafydd Roberts**

Atgofion William John, Pant

(Darlith Goffa Rhiannon Rowlands)

**Nos Lun, 11 Mawrth 2024**
**am 7.00yh**

**Wyneb yn wyneb**:
Yn Festri Capel Jerusalem, Bethesda.
Cofrestrwch efo
garethllwyd197@btinternet.com

Rhithiol tros Zoom: Cofrestrwch efo **bethan@ogwen.org**

Cofrestrwch erbyn 12 o'r gloch dydd Llun y ddarlith ar yr hwyraf

## Festri Jerusalem Y Gymdeithas

**Noson yng nghwmni Glyn Tomos a'r Teulu**

Nos Iau, 14 Mawrth am 7 o'r gloch

## Sefydliad y Merched Carneddi

yn cyfarfod ar y nos Iau cyntaf o bob mis yn **Festri Jerusalem** am 7 o'r gloch.

## Plaid Cymru Dyffryn Ogwen CYFARFOD BLYNYDDOL

Siaradwr Gwadd

**Hywel Williams, A.S**

Cefnfaes (Llawr Uchaf)

22 Chwefror am 7.00

## Neuadd Ogwen

**16/2/24 - MEINIR GWILYM & PADRAIG JACK**

Pleser mawr ydi gwahodd Meinir Gwilym o Fôn ar gyfer noson acwstic hamddenol. Mae Padriag o Ynysoedd Aran yn ganwr-gyfansoddwr dawnus a phoblogaidd sy'n perfformio yn ei Wyddeleg enedigol ac yn Saesneg. Bydd Padraig a Meinir yn rhannu'r llwyfan drwy'r noson ac yn canu bob yn ail. Digwyddiad eistedd.

**PENWYTHNOS DYDD GŴYL DEWI**
**1/3/24 - BOB DELYN A'R EBILLION + mwy**

Mae Bob Delyn a'r Ebillion o bwys mawr yn hanes y diwygiad gwerin Cymreig. Mae eu cerddoriaeth yn cyfuno amrywiaeth o ddylanwadau ac offerynnau gyda synau gwerin a traddodiadol Cymreig. Dathliad Dydd Gŵyl Dewi. Digwyddiad sefyll ac eistedd

**2/3/24 - MELYS, PYS MELYN, SOPHIE KILBURN**

Mae Melys yn hynod gyffroes i fod yn chwarae'n fyw eto. Bydd y band yn perfformio peth deunydd newydd ynghyd â rhai hen ffefrynnau cyn rhyddhau sengl ac albwm newydd (neu ddwy!!). Cefnogaeth anhygoel gan Pys Melyn a Sophie Kilburn. Digwyddiad sefyll.

## DYDDIADUR BOREAU COFFI

**2024**

24 Chwefror – Eglwys Crist Glanogwen – Festri Jerusalem.
6 Ebrill – Plaid Cymru – Cefnfaes.
20 Ebrill – Eisteddfod Dyffryn Ogwen – Cefnfaes.
11 Mai – Cymdeithas Jerusalem – Festri Jerusalem.
18 Mai – Cymorth Cristnogol – Cefnfaes.

**Pwysig**

*Os yn trefnu Bore Coffi yn ardal Bethesda, bydd y rhestr uchod yn gymorth i chi ddewis dyddiad gwag. Gallwch wedyn gynnwys eich dyddiad chi ar y rhestr hon. Bydd yn cael ei diweddaru ac yn ymddangos pob mis.Anfonwch y manylion at Neville Hughes (600853).*

## CYMDEITHAS WYDDONOL GWYNEDD

**Gwyddor Môr ac Archaeoleg llongau tanfor y Rhyfel Byd Cyntaf**

**DEI HUWS**

**(YSGOL GWYDDORAU EIGION, PRIFYSGOL BANGOR)**

**7.30, Nos Lun, Mawrth 11 2024**

**Ystafell 1.07 Canolfan Bedwyr (Neuadd Dyfrdwy),**

**Ffordd y Coleg, Bangor LL57 2DG ac ar y wê.**

## Marchnad Ogwen

**Mawrth 9fed**

**Ebrill 13eg**

**9.30am - 1pm**

**Neuadd Ogwen**

Bwydydd, Crefftau, Lleol

www.marchnadogwen.co.uk

## Nant Ffrancon

**Marw**
Ar 26 Rhagfyr yn yr ysbyty bu farw Mr. Eric Wynne Roberts, Bronant, Tyn y Maes yn 88 mlwydd oed. Priod annwyl y diweddar Mrs. Susan Roberts, tad hoffus Katie, Richard a Rebecca, tad yng nghyfraith David, Miranda ac Alwyn, a thaid Finlay. Brawd y diweddar Joan, Adwy'r Nant a brawd yng nghyfraith Meirion. Cynhaliwyd ei angladd ddydd Mercher, 24 Ionawr yn Amlosgfa Bangor, gyda'r Barchedig Sara Roberts yn arwain y gwasanaeth a Mrs, Christine Edwards wrth yr organ. Cydymdeimlwn â chi fel teulu.


HYWEL WILLIAMS
AELOD SENEDDOL DROS ARFON

CYSYLLTWCH:
01286 672076
70 Stryd Fawr, Bangor
hywel.williams.mp@parliament.uk
YMA I BOBOL DYFFRYN OGWEN AC ARFON

SIÂN GWENLLIAN
AELOD O'R SENEDD DROS ARFON
CYSYLLTWCH:
sian.gwenllian@senedd.cymru
01286 672 076
70 Stryd Fawr, Bangor
Senedd Cymru
Welsh Parliament

Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan
Gomisiwn y Senedd o gronfeydd cyhoeddus

Cynghorwyr Sir Dyffryn Ogwen
Plaid Cymru

Tregarth a Mynydd Llandygai • cynghorydd.BecaRoberts@gwynedd.llyw.cymru • 07436 927237
Gerlan • cynghorydd.EinirWynWilliams@gwynedd.llyw.cymru • 07747 690456
Canol Bethesda • cynghorydd.RheinalltPuw@gwynedd.llyw.cymru • 07789 742092
Arllechwedd • cynghorydd.DafyddMeurig@gwynedd.llyw.cymru • 07765 400140
Rachub • cynghorydd.PaulRowlinson@gwynedd.llyw.cymru • 07949 034967


# YSGOL TREGARTH



**Ymweliad Amgueddfa Lerpwl**
Thema dosbarth Ffrydlas y tymor hwn yw 'Yr Ail Ryfel Byd'. Fel sbardun ar gychwyn y thema, aeth blwyddyn 5 a 6 ar drip i Amgueddfa 'Western Approaches' yn Lerpwl er mwyn dysgu mwy am y cyfnod. Yno, dysgodd y plant am ddogni, rolau pobl yn ystod y rhyfel a hyd yn oed sut oedd gorymdeithio fel milwyr! Diolch yn fawr i'r plant am eu hatebion aeddfed a'u brwdfrydedd yn ystod y diwrnod.



**Ymweliad Amgueddfa Y Beatles**
Y tymor hwn, thema dosbarth Ogwen yw 'Y 60au'. Er mwyn dysgu mwy am y cyfnod, aeth dosbarth Ogwen i ymweld ag amgueddfa Y Beatles yn Lerpwl. Yno, cafodd y plant gyfle i chwarae offerynnau fel drymiau, gitâr a gitâr fas yn ogystal â dysgu a gweld lluniau o Beatle Mania. Hefyd, cafodd y plant brofiad gwych wrth fynd ar fws heb do o gwmpas Lerpwl i weld yr holl adeiladau a cherflun o'r Beatles.

**Adnoddau amser chwarae**
Yn ddiweddar, rydym wedi derbyn adnoddau newydd ar gyfer amser chwarae. Diolch yn fawr i blant y Cyngor Ysgol am eu holl syniadau er mwyn gwella amser chwarae. Mae holl blant yr ysgol wedi gwirioni gyda'r adnoddau newydd!

## Tregarth

**Olwen Hills** (Anti Olwen), 48 Bro Syr Ifor, Tregarth (600192)
**Angharad Williams**, 23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth (601544)
**Gwenda Davies**, Llanfairpwll (gwendaglyn@hotmail.com)

**Anrhydedd**
Dyfarnwyd Medal yr Ymerodraeth Brydeinig i Dr Robert Harvard Davies yn anrhydeddau'r flwyddyn newydd am ei wasanaeth ar Dîm Niwroddatblygiad Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Bangor. Mae'r Dr Robin Davies yn byw yn Nhregarth ac yn gweithio i'r GIG ers Medi 1966 gan arbenigo mewn pediatreg. Ac yntau yn ei wythdegau mae'n dal i weithio. Llongyfarchiadau mawr iddo.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau lu i Enid a Dafydd Roberts, Cae'r Wern, ar ddod yn Nain a Taid am y tro cyntaf, i Elinor, sef merch fach newydd sbon Catrin ac Iwan. Pawb wedi gwirioni dwi'n siwr.

**Merched y Wawr**
Rydym fel Cangen yn edrych ymlaen yn fawr at gyfarfod Mis Chwefror ar Nos Lun, Chwefror 5, pan ddaw Angharad Griffiths o Fethesda i siarad ar y testun 'Bwyta'n iach gydag Angharad' yn Festri Capel Shiloh Newydd am 7.30. Bydd mwy o hanes y noson yn rhifyn Mis Mawrth o'r Llais.
Nos Lun, Mawrth 4, bydd y gangen yn dathlu Gwyl Ddewi yn y Clwb Rygbi ym Methesda gyda gwestai arbennig iawn. Am fwy o fanylion cysylltwch gyda Carol (601328) Delyth (601011) neu Christine (600580).

**Profedigaeth**
Ar Ragfyr 30 yn Bryn Seiont Newydd, Caernarfon, bu farw Gareth Wynne Parry, 11 Ffordd Tanrhiw. Anfonwn ein cydymdeimlad at ei briod Sheila, ei blant Christopher, David a Lisa, ei wyrion a gweddill y teulu. Bu ei angladd yn Eglwys y Santes Fair, y Gelli, ar Ionawr 19.

Bu farw un arall o drigolion y pentref ar Ionawr 2, sef Ethel Jean Clarke, 57 Bro Syr Ifor, gynt o Lanberis. Roedd yn wraig i'r diweddar Peter Clarke ac yn fam i Jim, Michael, Stephen, Julie, Patrick a Christopher. Pob cydymdeimlad i chwithau i gyd fel teulu.

**Mwy o Longyfarchiadau**
Llongyfarchiadau mawr i Iolo Parry, Tal y Cae ar dderbyn gwobr yn seremoni gymnasteg gogledd Cymru yn Venue Cymru, Llandudno. Diolch i glwb Dreigiau'r Dyffryn am y cyfle. Dal ati Iolo!

Llongyfarchiadau i Menna Edwards, Rosedale Tregarth, ar ennill gradd gydag anrhydedd mewn astudiaethau plismona a dadansoddi gwybodaeth ddeallusol o brifysgol Birmingham.

## Capel Shiloh Newydd

Oedfaon am 5 o'r gloch oni nodir yn wahanol.
*Chwefror*
18 Dr Alun Morton Thomas, Porthaethwy
25 Dr Ian Morris

*Mawrth*
3 Peter Cutts, Porthaethwy
10 Ellie Jones, Coed y Parc
17 Dr Ian Morris
24 Philip Barnett, Swydd Efrog (Sul y Blodau)
31 Nerys Griffiths (Sul y Pasg)

Cofiwch am y Drws Agored yn Shiloh bob bore Gwener. Mae croeso cynnes iawn i bawb o'r ardal i droi imewn am sgwrs, paned a chynhesrwydd a hynny rhwng 10 a 12 o'r gloch. Mae Edgar Roberts o Lanfairpwll, ond yn wreiddiol o Fethesda, yn un o selogion Drws Agored a chafodd brofedigaeth ym Mis Ionawr pan fu farw ei chwaer Valmai oedd yn byw yn Prestatyn. Pob cydymdeimlad i Edgar a'r teulu.

Da gweld nifer o'r rhai sy'n mynychu bore Gwener wedi gwella wedi cyfnod gyda'r Cofid dros y Dolig!

Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at Nos Sadwrn Ebrill 27, pan gawn gyfle i groesawu y gantores o Rhiwlas a Llydaw, Lleuwen Steffan, i Shiloh am 7.30, i gyflwyno prosiect newydd sbon, sef cyflwyno hen emynau y Cymry sydd wedi mynd yn angof. Nid oes angen tocyn i'r digwyddiad cyffrous yma felly dewch yn llu. Mae digonedd o le i bawb. Mwy o fanylion yn y rhifyn nesaf o'r Llais.

# Gosod Mainc ar Lwybr Cwm Idwal




**Yn ddiweddar, fel rhan o brosiect yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, sy'n rhannol gyfrifol am Gwm Idwal gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Chyfoeth Naturiol Cymru, comisiynwyd mainc wed'i cherfio'n arbennig i'w gosod ar ochr y llwybr i'r cwm.**

Bwriad y brosiect oedd tynnu sylw at y newidiadau sy'n effeithio ar y dirwedd. Mae newid hinsawdd yn cael effaith ar Warchodfa Natur Genedlaethol Cwm Idwal yng ngogledd Eryri mewn sawl ffordd. Mae glaw trwm yn achosi erydiad, ac mae tywydd anrhagweladwy, gwres eithafol a sychder yn cynyddu'r pwysau ar rywogaethau a phlanhigion sydd eisoes yn brin. Fodd bynnag, mae'r tri chorff sy'n gyfrifol am y cwm mewn partneriaeth, yn cefnogi'r dirwedd drwy sawl mesur addasu hinsawdd.

Meddai Rhys Wheldon-Roberts, Swyddog Partneriaeth Cwm Idwal, "Mae ein gwaith llwybrau troed yn helpu mynd i'r afael ag erydiad, ac mae rheoli pori yn helpu cynyddu bioamrywiaeth ac mae system synhwyrydd tymheredd arloesol yn helpu amddiffyn planhigion prin rhag difrod yn y gaeaf. Mae'r mesurau hyn i gyd yn cynyddu gwytnwch Cwm Idwal i effeithiau newid hinsawdd."

Rhan ganolog o'r brosiect oedd trefnu sgyrsiau rhwng rhai oedd yn ddieithr i'w gilydd am bwysigrwydd y cwm iddyn nhw. Roedd y parau'n cynnwys y bardd lleol, Ieuan Wyn, sy'n cael ysbrydoliaeth yn y dirwedd, a Lynwen Veerbek, dwy ar bymtheg oed, sydd wedi'i magu yng Nglan Rhyd Idwal, yn agos i'r cwm. Siaradodd Alun Roberts, prifathro wedi ymddeol, y mae ei deulu wedi byw yn yr ardal ers 350 o flynyddoedd ac a fu unwaith yn berchen Bwthyn Ogwen gerllaw, â David Walker, mynyddwr a symudodd i Fethesda yn ystod y cyfyngiadau symud ac sydd bellach yn gweithio yn y dirwedd. Yn ogystal, bu Dan Parri, bugail lleol, yn sgwrsio â Rachel Bedwin, aelod o dîm llwybrau troed yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, a symudodd i'r ardal o Lundain ac sydd wedi dysgu Cymraeg.

Mae'r fainc, sydd wedi'i hysbrydoli gan eu sgyrsiau, yn annog pobl i eistedd a rhannu eu straeon am Gwm Idwal a sut mae'n newid. Wedi'u cerfio arni mae delweddau sy'n cyfleu'r dirwedd a pherthynas pobl â'r amgylchedd naturiol, gan gynnwys cwpled gan Ieuan Wyn:

Hyfryd yw hud Cwm Idwal,
A'i swynion dwfn sy'n ein dal.

Mae'r sgyrsiau am y cwm wedi eu recordio, a bydd ymwelwyr yn gallu gwylio'r fideo yng Nghanolfan Cwm Idwal. Dolen i'r fideo: https://www.youtube.com/watch?v=BZR8OYhopZQ

# Nyth y Gân

## Y LLUWCH

Cefnau hen gloddiau gladdwyd, ac eira
Yn gyrru ei arswyd;
Y borfa oll a gollwyd,
Bu fain ar ddefaid heb fwyd.



## RICHARD TUDOR

(yr hwyliwr enwog o Bwllheli a fu farw Nos Galan, 2023)

Talent yn y byd hwylio a welwyd
Mewn heli'n mordwyo,
Fe roddodd wefr wrth sglefrio
Yn wych iawn yn ei gwch o.

## NIWL MYNYDD

Cadarn, caregog gopa,
Daeth newid drosto fo;
Y trwchus niwl yn flanced
Ledaenodd uwch y fro.

Trist yr olygfa honno
Pan guddiwyd uchel frig
Gan niwl a hwnnw'n llonydd
A thrwm uwchlaw y wig.

Ond yna fe ddiflannodd
A myned ar ei hynt,
A buan daeth i'r golwg
Yr harddwch welid gynt.

Daeth glesni unwaith eto
Yn ôl hyd lethrau'r fro,
A'r mynydd â'i hyfrydwch
I'n llonni yn ei dro.

## STORM AR Y MÔR

Anobaith yn eu hwynebau, a'r llong
Ar y lli'n llawn nwyddau;
Dynion mewn anferth donnau
Yno'n frwd ond eto'n frau.

**Dafydd Morris**

# Llandygái

**Iona Wyn Jones,** 16 Pentref, Llandygái, Bangor LL57 4HU
(01248 354280) ionawynbangor@gmail.com

## Eglwys Sant Tegai, Llandygai

**Raffl Santes Dwynwen**

Erbyn i rifyn Chwefror Llais Ogwan ymddangos, bydd enillydd lwcus Raffl Santes Dwynwen wedi mwynhau cynnwys potel o siampên! Diolch i bawb a werthodd ac a brynodd y tocynnau. Cewch wybod pwy a enillodd yn y rhifyn nesaf!

**Anrhydedd**

Llongyfarchiadau i Peter Bullen o'r pentref ar ennill medal y Brenin "Prawf Niwclear" am ei wasanaeth ar Ynys y Nadolig yn y Chwedegau. Hon yw'r fedal gyntaf i gael ei chyflwyno gan y Brenin ers ei Goroni.

Llongyfarchiadau calonnog hefyd i Dr Robin Davies, aelod o'r gynulleidfa ond yn byw yn Dob, Tregarth. Gwobrwywyd Robin gyda'r BEM yn Rhestr Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd 2024 am ei waith yng ngwasanaethau iechyd yng Cymru ac yn India.

Mae'n draddodiad canu clychau St Tegai i ddathlu newyddion da ein bro felly clywsom chwarter caniad ar Nos Galan i anrhydeddu Peter ac un arall ar Ddydd Calan i longyfarch Robin. Rydym yn falch iawn o'u cyflawniad.



Peter Bullen yn dangos ei falchder yn y fedal "Prawf Niwclear".



Y tîm clochyddion yn llongyfarch Robin Davies ar ei fedal BEM.

**Colledion**

Roedd mis Ionawr yn adeg trist iawn i'r gynulleidfa. Ar ôl yr ergyd o golli Rory Cramb, un o deulu'r Chamberlains gynt o Barc y Penrhyn mewn damwain erchyll, cawsom glywed fod Margaret, mam Sara a mam yng nghyfraith y Parchedig John Bleazard o Fynydd Llandegai wedi marw. Roedd Margaret wedi bod yn wael ers dipyn. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i'r teulu ar golli un mor annwyl. Mae John yn cynnal gwasanaethau yn St Tegai fel rhan o dim gweinidogaethol Bro Ogwen.

**Gwasanaethau a Manylion Cyswllt**

**Ar y Sul**

Fel arfer mae'r gwasanaethau'r Sul am 11.00 ar yr ail a'r pedwerydd Sul yn y mis (Chwefror 11eg a Chwefror 25ain). I gadarnhau hyn a gwasanaethau dros y Garawys, gweler rota eglwysi Bro Ogwen ym mhorth pob eglwys ym Mro Ogwen.

**Ar Ddydd Mercher**

Gwasanaeth 10.15, paned a sgwrs i ddilyn, ar yr ail a'r pedwerydd Mercher yn y mis (sef 13eg a'r 27ain). Os na ddymunwch fynychu'r gwasanaeth, mae croeso i chi ymuno â ni am y baned a sgwrs sy'n dilyn! Y Parch Ddr Gareth Lloyd yw ein Arweinydd Bro a Ficer Bro Ogwen, gofynnwn i chi gysylltu'n uniongyrchol ag ef ar 01248361521 neu gareth.lloyd@cantab.net ynglŷn ag unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys.

# Iaith Pesda
gan Mary Jones

Y tro diwethaf, soniwyd am '**clwt**' a'i ystyron gwahanol: clwt i sychu petha', a chlwt yn y chwarel – darn go fawr o lechfaen. Cefais air gan Andre Lomozik iddo fo glywed am glwt o dir. Wel, dyma ichi 'glwt' arall felly, sef y darn o'r ardd lle mae llysiau'n cael eu tyfu. Erstalwm, byddaigan y rhan fwyaf o deuluoedd yr ardal glwt gan ei bod yn ffordd ratach o roi bwyd ar y bwrdd, a hwnnw'n ffres. Byddai clwt tatws yn gyffredin iawn, a byddai edrych ymlaen at gael tatws newydd yn syth o'r ardd am fod 'blas y pridd' arnyn nhw.

Gair arall yn y golofn fis diwethaf oedd '**caridým**', rhywun mewn dillad carpiog neu ddihiryn. Mi glywais ei fod o'n dŵad o 'clêr y dom', sef y pryf a welir ar faw gwartheg, neu o '*don't care a damn*'. Pa un, sgwn i? Tydi geiriau'n ddiddorol.

**Da**
Mae gynnon ni nifer o ffyrdd o ddefnyddio'r gair 'da'. Dyma i chi rai: 'da-da' meddan ni am 'fferins', 'petha' da' a 'melysion'. Pan fydda' tân glo yn ein tai, byddem ni'n deud "Ew, mae hwn yn dân da" am dân a oedd yn dda am daflu gwres. "Brysia, da ti!" meddem ni pan fyddwn ni am i rywun wneud ymdrech. "I be' ma' hwn yn dda?" neu "I be' ma' hwn yn da?" ofynnwn ni i gael gwybod beth ydi pwrpas rhywbeth. Ac os bydd ateb negyddol, yr hyn ddwedwn ni fydd 'Di o'n dda i ddim!" neu 'Di o'n da i ddim!" Ein cyfarchiad gyda'r nos ydy "Nos dawch", ac nid "Nos da", a heb fod ymhell yn ôl byddai pawb yn cyfarch ei gilydd ar y stryd a hithau wedi nosi drwy ddweud "Nos dawch", a hynny hyd yn oed os oedd y bobl yn ddiarth i'w gilydd. Cyfarchiad arall efo 'da' ynddo fo ydy "Da boch chi" wrth ffarwelio â rhywun.

**Ambell air ac ymadrodd**
**tsiampion.** O'r Saesneg '*champion*' y daw hwn. Yn Gymraeg, mae o'n cael ei ddefnyddio yn lle 'campus', sef 'rhagorol', er enghraifft "Sut ydach chi acw?" "Dan ni'n tsiampion" neu "Ydi'r peiriant 'na'n gweithio'n dda?" "Yndi, mae o'n gwneud yn tsiampion."

**ciabi**. Gallwch ddefnyddio ciabi wrth goginio, wrth llnau, neu i'w roi ar losg efo mymryn o ddŵr oer. Gair o 'cabi' sydd wedi mynd yn 'ciabi', wedi dod o'r Saesneg *sodium bicarbonate* ydi 'ciabi'.

**hurt bost.** Rhywun neu rywbeth cwbl ddi-synnwyr, e.e. "Roedd o'n hurt bost ar ôl iddo gael gormod o ddiod"; "Wel, mae'r syniad yna yn un hurt bost!" Mae'n bosib mai cyfeiriad at bostyn sydd yma, achos mae yna ddywediad angharedig fod rhywun 'fel postyn o dwp'.

**chwadal.** Daw hwn o 'chwedl', sef stori, hanes neu ddameg, ond ei ystyr arall ydy 'fel y dywed' – "Chwadal Mam, 'mae isio gras!' " Hynny ydy, "Fel y byddai Mam yn dweud, 'Mae isio gras!'

**mwnci mul.** Rhywun styfnig – "Mae o rêl mwnci mul."

**clencan.** Rhywbeth arbennig o dda. "Mi sgoriodd o glencan o gôl."

**gyrru.** 'gyrru llythyr; a 'gyrru neges' ddwedwn ni yn amlach na dweud 'anfon llythyr' ac 'anfon neges'.

**danfon**. 'danfon llythyr' oedd mynd â fo yn personol i'w roi o i'r un oedd i'w dderbyn o. Hefyd, mae fan fwyd yn danfon, hynny ydi yn dŵad â bwyd y siop i'ch tŷ chi. Mae ystyr arall i 'danfon', sef 'hebrwng' rhywun – er enghraifft, mam yn dweud wrth ei hogyn "Dos i ddanfon Anti Jên adra."

**migmans.** Daw hwn o'r Saesneg '*necromancy*', sef dewiniaeth. Mae o'n cael ei ddefnyddio gynnon ni i olygu gwneud 'ystumiau' er mwyn creu argraff neu i gamarwain. "Gneud migmans mae o rŵan."

**fflachod**. Os am bicio i rywle yn sydyn a does dim awydd gennych newid eich esgidiau, yna gallwch ddweud "Mi wnaiff yr hen fflachod yma'r tro yn iawn" am bâr blêr sydd wedi hen wisgo y byddwch yn eu defnyddio o gwmpas y tŷ.



**Sôn am Foch!**
Druan o'r mochyn! Mae o wedi cael enw drwg – a hynny ar gam oherwydd ei fod o'n tyrchu yn y pridd ac yn baeddu yn y mwd. Diddorol ydy'r geiriau – y baedd yn baeddu, a'r twrch yn tyrchu. Mae gynnon ni lawer o ddywediadau sy'n cyfeirio ato fo. Pan fydd plentyn wedi baeddu wrth chwarae bydd ei fam o'n dweud "Dos i olchi'r dwylo a'r gwynab 'na. Rwyt ti fath â mochyn o fudur!" Ffordd arall o ddweud bod busnes wedi dwad i ben o achos methiant ariannol neu bod rhywun wedi mynd yn feth-dalwr ydy "Mae'r hwch wedi mynd drwy'r siop." Sylw angharedig a glywid am ddynes yn methu cadw ei thŷ'n lân oedd "Mae hi rêl hwch", a'r sylw am ddyn yn ymddwyn yn hyll tuag at ferched oedd "Mae o rêl mochyn" gan ychwanegu'r gair 'budr' ar ei ôl yn aml. Pan fydd pethau'n mynd o chwith ac yn flêr, yr hyn a ddywedir ydy "Mae hi'n draed moch yma!"


Wel daeth Ionawr â rhywfaint o eira am gyfnod byr a chawsom ryw '**gaenen'** i orchuddio'r tir dros nos. Tybed sut dywydd a gawn yn y mis bach?

Diolch o galon i Sandra Howells sydd wedi bod yn brysur iawn yn casglu geiriau a'u hanfon ataf.

Y mis nesaf hoffwn drafod 'Y Tŷ'- geiriau sydd gennym am y gwahanol rannau o'r tŷ boed y tu mewn neu'r tu allan a'r hyn sydd gennym yn y tŷ.

Anfonwch at Mary Jones 42 Erw Las Bethesda LL57 3NN ffôn 07443047642 maryeds@hotmail.co.uk


**Londis**
BETHESDA
01248 605566
Archfarchnad hwylus a Swyddfa Bost Gwasanaeth personol gyda'r pwyslais ar y cwsmer
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr 7 diwrnod yr wythnos

**CHRIS GRIFFITHS CYF**

Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu
18 Carreg Felin
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB
☎ 01248 713 369
neu 07813 455653

**DAFYDD CADWALADR**
CYNHYRCHION COEDLANNOL
Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed Asiant system gwresogi trwy losgi coed
01248 605207

## Carneddi

**Pen-blwydd Arbennig**
I Derfel
(yn 80 oed)

Ar ei ben-blwydd boed llwyddiant i Derfel
Wedi hirfaith brifiant;
Un neges yw'n mynegiant
Yn un côr: 'Ymlaen i'r cant!'
*Ieuan Wyn*

Llongyfarchiadau mawr i Derfel Roberts, Llys Artro ar gyrraedd y pedwar ugain. Hanner can mlynedd yn ôl ac yntau yn ddeg ar hugain oed roedd cynlluiau ar y gweill i gychwyn papur bro yn Nyffryn Ogwen, ac ymddangosodd y rhifyn cyntaf o Llais Ogwan. Derfel wrth gwrs oedd y golygydd cyntaf a bu wrthi ar ben ei hun ac wedyn yn ran o'r bwrdd golygyddol am flynyddoedd maith. Gobeithio dy fod wedi mwynhau dathlu'r pen-blwydd Derfel.


CAFFI
COED Y BRENIN
1 Rhes Buddug, Bethesda
Ffôn: 01248 602550

Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)
Cinio arbennig bob dydd Iau
Bwyd i'w gario allan
Gwasanaeth arlwyo ar gyfer partïon o bob math – plant, pen-blwydd ac ati (yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)
Prisiau rhesymol
ORIAU AGOR
D. Mercher, Iau, Gwener 8.00 – 2.30

Gadewch i
Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi


## Talybont

**Neville Hughes**, 14 Pant, Bethesda (600853)
**Barbara Jones**, 1 Dol Helyg, Talybont (353500)

**Diolchiadau**
Dymuna Margaret, a theulu'r diweddar Neville Fernley, ddiolch o galon i berthnasau, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, galwadau ffôn a'r rhoddion hael.

Rhoddwyd dros £850 o bunnoedd, er côf am Neville, at Gronfa Ambiwlans Awyr Gogledd Cymru.

Diolchwn i Nyrsus Bro Bethesda a Gofalwyr Plas Garnedd am eu gofal tyner a sylwgar, ac i Gareth Williams, Ymgymerwr Angladdau, am ei drefniadau proffesiynol a pharchus yn ystod y brofedigaeth.

**Adre'n ôl!**
Mae Dawn, Plas Maes y Groes, gartref o'r ysbyty ac yn gwella o haint drwg ar yr ysgyfaint. Gofal piau hi rwan, Dawn, yn enwedig yn ystod tywydd oer y Gaeaf.

**Babi newydd**
Llongyfarchiadau i Tammy, 30 Cae Gwigin, ar ddod yn Nain unwaith eto.

Ar Ionawr 16eg, ganwyd geneth fach, Ophelia Violet, i'w merch Abbie a'i chymar Taylor. Cofiwn rannu'r pryder, ddwy flynedd a hanner yn ôl, pan anwyd Valencia Grace, eu plentyn cyntaf. Daeth i'r byd chwech wythnos yn gynnar, a gorfod dioddef triniaeth fawr yn Ysbyty Alder Hey. Erbyn hyn, mae Valencia yn dod yn ei blaen yn ardderchog, ac yn chwaer fawr falch i Ophelia. Pob bendith arnoch fel teulu.

**Diolch**
Diolch yn fawr iawn i Julian am dorri brigau'r goeden yn y Cae Chwarae. Roeddynt yn crafu topiau'r ceir wrth inni yrru odditanynt.

Hoffwn innau ddiolch i'm cymdogion ffeind yn Dolhelyg a ddaeth i helpu i glirio'r llanast ar ôl i 'corwynt Isha' godi'n sied, ei daflu dros y wal i ardd y tŷ nesa', a'i adael yn deilchion ar y gwair. 'Welais i erioed y fath beth ond, diolch byth, 'chafodd neb mo'i frifo.

### Capel Bethlehem
*Oedfaon (am 2 o'r gloch)*
Chwefror
18: Mr. Richard Parry Jones.
25: Parchg. Dafydd Job.

Mawrth
3: Parchg. John Pritchard.
10: Parchg. Dafydd Coetmor Williams.
17: Oedfa.
24: Parchg. Rhodri Glyn.

Croeso cynnes i bawb.

*Corwynt yn Cau'r Capel*
Fel llawer capel arall ar hyd ac ar led y wlad, bu'n rhaid cau'r addoldy oherwydd gerwinder y storm "Isha" ar Sul. 21 Ionawr. Diolch i'r Parchedig Megan Williams, Porthaethwy, a oedd i fod i bregethu ym Methlehem ar y Sul hwnnw, am gytuno i ddod i'n gwasanaethu ar y Sul canlynol.

**Plant prysur**
Bore dydd Gwener diwethaf, roedd y Cae Chwarae yn llawn o blant, pob un yn gwisgo siaced felen. Roedd rhai yn dal y sachau'n agored ac eraill, gyda chymorth ffon 'Help llaw', am y gorau i'w llenwi efo sbwriel. Yn ôl eu hathrawon, Mrs Davies, Ms Marian a Ms Powell, yr oedd Dosbarth Awel, Ysgol Llandygai, wedi bod wrthi'n ddygn yn codi sbwriel hyd y pentref hefyd.

Blant, rydan ni'n diolch ichi o waelod calon am eich gwaith caled a'ch cymwynasgarwch. Bu Morus y Gwynt yn chwythu'n arw ar y nos Sul, a dechrau'r wythnos hefyd, wedi'i bawb roi'r biniau glas allan ar gyfer y lori ail-gylchu. Cafodd papurau, cardfwrdd a photeli plastig eu chwythu i bob twll a chornel o'r pentref.

Mi ddaethoch yma ar yr union amser i'n helpu i wneud i Talybont edrych yn dwt unwaith eto. Mae'r cyfrifoldeb arnom ni rwan i gadw'r safon.


C.L. JONES
Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu
Timber & Builders' Merchants
Bethesda - Caernarfon - Mynytho - Llanrwst - Llangefni - Caergybi - Bae Cinmel - Llandudno
C.L. Jones yw eich masnachwyr adeiladu annibynnol lleol gydag amrywiaeth eang o ddeunyddiau adeiladu o safon gan gynnwys cyflenwadau plymio, addurno a thirlunio. Rydym yn agored i fasnachau a'r cyhoedd, ac yn cynnig danfoniad am ddim. Mae gennym arddangosfeydd ceginau ac ystafelloedd ymolchi ar gael yn ein canghennau Llangefni a Llanrwst.




Bethesda 01248 600 045
bethesda@cljonesltd.co.uk

## Y Gerlan



**Gair o ddiolch**
Hoffai Rhian, Richard a'r teulu ddiolch am y llu cardiau, llythyrau a galwadau ffôn a dderbyniwyd ar ôl colli tad Rhian, sef Dewi Llewelyn Davies o Fangor. Roedd pob un gair o gydymdeimlad yn gysur. Diolch hefyd am y rhoddion caredig er côf a ddaeth i gyfanswm o dros fil o bunnoedd tuag at Tŷ Gobaith Conwy.

**Pen-blwydd arbennig**
Pen-blwydd hapus iawn i Dic Ben, Ffordd Gerlan a fu'n dathlu pen-blwydd arbennig ar y 10fed o Ionawr. Cafodd ddathlu efo Caren ag Elin yn Budapest a digon o ddathlu ar ôl dod adref hefyd. Hoffai ddiolch i bawb am y cyfarchion a'r dymuniadau da. Bydd y trwydded bws yn y post yn fuan!

**Cydymdeimlo**
Anfonwn ein cydymdeimlad unwaith eto at Gwenllian Dafydd, Ciltwllan, a gollodd ei hewythr yn frawychus o sydyn. Cofion cynnes atat a'r teulu i gyd Gwen.

**Dewch i Drochi Dros Dewi**
Ydych chi eisiau gwneud rhywbeth gwahanol i ddathlu Dydd Gŵyl Ddewi eleni? Mae criw o nofwyr gwyllt o'r ardal yn nofio yn Afon Ogwen yn rheolaidd. Rydym yn dod at ein gilydd yn un grŵp mawr ychydig o weithiau'r flwyddyn megis Dydd San Steffan a Dydd Calan. Eleni, rydym am ddod at ein gilydd i ddathlu Dydd Gŵyl Ddewi.

Mae Gwenno Dafydd o Gaerdydd wedi bod yn gweithio'n frwd ers blynyddoedd i drefnu gorymdeithiau a hybu digwyddiadau eraill i ddathlu Mawrth y 1af. Mae hyd yn oed wedi cyfansoddi Anthem Dydd Gŵyl Ddewi – Cenwch y Clychau i Dewi (geiriau - Gwenno Dafydd, cerddoriaeth – Heulwen Thomas).

Y llynedd, bu iddi drefnu digwyddiad hollol newydd ac unigryw i goffau diwrnod nawddsant Cymru. Gan fod gan Dewi Sant gysylltiad agos gyda dŵr, penderfynodd drefnu digwyddiad trochi, lle bu i grŵp o nofwyr gwyllt fentro i'r dŵr yn gwisgo penwisg cennin pedr a galw'r digwyddiad yn Dewch i Drochi Dros Dewi. Eleni, mae wedi cysylltu gyda nifer o grwpiau trochi ar draws Cymru eu mwyn eu hybu i ymuno yn yr hwyl.

Rydym ni yma'n Pesda yn edrych ymlaen at wisgo'n penwisgoedd blodeuog a mentro i'r afon ym Mhont Ogwen. Gan fod Mawrth y 1af ar ddydd Gwener a nifer yn gweithio, rydym wedi penderfynu cynnal dau ddigwyddiad:

**Dydd Gwener Mawrth y 1af am 9yb – dip a phaned.**

**Dydd Sadwrn Mawrth yr 2ail am 10yb – dip a phaned**

Dewch i ymuno yn yr hwyl boed chi am roi eich traed yn y dŵr neu beidio. Mi fuasem ni wrth ein bodd yn cael criw yn ein cefnogi ar y lan hefyd a chyfle i bawb ddod at ei gilydd er mwyn ceisio cychwyn traddodiad newydd a fydd gobeithio'n tyfu i fod yn rhywbeth mwy dros y blynyddoedd i ddod. Cofiwch ddod â'ch cennin pedr a'ch dreigiau coch efo chi!

Os oes gan unrhyw un syniadau am bethau eraill i wneud yn ystod y digwyddiadau yma, cysylltwch gyda Caren Brown (07789916166 / carenelaine@hotmail.com). Mi fyddai'n dda gweld hyn yn mynd o nerth i nerth yn byddai?

Mae gan Dewch i Drochi Dros Dewi dudalen Facebook – felly gallwch fynd draw i'r dudalen i ddysgu mwy am y traddodiad newydd yma. #Dewchidrochidrosdewi

## Hwb Ogwen

Erbyn hyn mae Hwb Ogwen wedi helpu dros 450 o deuluoedd yr ardal. Yn ogystal a chynnig pecynnau bwyd mewn argyfwng, gallwn roi cyngor ar fudd daliadau a chymorth ar filiau cartref fel trydan, nwy, dŵr, ffôn ayyb. Rydym yma hefyd i'ch helpu chi i gwblhau ffurflenni, e.e pas bws neu bathodyn glas.

Mae Swpar Chwaral yn parhau i fynd o nerth i nerth, - cyfle i gymdeithasu a dod at ein gilydd i gael pryd o fwyd. Croeso cynnes i bawb yng Nghanolfan Cefnfaes bob nos Fercher 4-6.

Rydym yn cydweithio gyda Gwaith Gwynedd i gynnig cyngor ac arweiniad cyfeillgar, cefnogaeth un i un, a mentora i helpu unigolion i ddatblygu eu sgiliau, dod o hyd i hyfforddiant, gwirfoddoli a chyflogaeth.

Gwyliwch allan am unrhyw swyddi lleol fydd yn cael eu hysbysebu yn ffenest yr Hwb.

Byddwn yn ddiolchgar iawn am unrhyw roddion bwyd,- dewch â'ch rhoddion i Hwb Ogwen, 57 Stryd fawr, Bethesda. Ar agor bob dydd Mawrth a Iau 10-6.

Cysylltwch a Hwb Ogwen – Ffôn: 07862694163, Ebost- Hwb@ogwen.org


**TEMPLE MORRIS A'I FAB**
Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.
07770 900531 | 01248 600282
jtemplemorris@btinternet.com



ARBENIGWR MEWN LLORIAU COED CALED
**A.G.L.**
Lloriau
Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.
**Andrew G. Lomozik B.A.**
**Ffôn:** 01248 602117
**Symudol:** 07835487909

**JOHN ROBERTS**
Paentiwr
Papurwr
Teilsiwr
**Symudol:** 07747 628650
**Ffôn:** 01248 600995

**BARBWR OGWEN**
Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant gan Alison

# UN RHES, DAU DDEG DAU O DAI

RHAN 15

**9 a 10 OGWEN TERRACE, BETHESDA**
(Parhad o ran 14)

Bu Richard Hughes farw ar y 26ain o Rhagfyr, 1877 ac mae adroddiad am ei farwolaeth yn ymddangos yn *Y Goleuad*, Ionawr, 12, 1878.

'HUGHES.- Ar y 26ain cyfisol, yn nhŷ ei ferch yn Mangor, 84 mlwydd oed, Mr Richard Hughes, Ogwen Terrace, Bethesda, gynt. Ymddengys iddo syrthio yn y tŷ 8 o'r gloch nos Lun, a thorri dwy o'i asennau, a bu mewn poenau hyd nes y rhoes angau derfyn ar ei einioes. Cynhaliwyd trengholiad arno prynhawn dydd Iau, pryd y rhoed y rheithfarn yn unol â'r ffaith a nodwyd. Claddwyd ef ddydd Sadwrn yn mynwent Glan Ogwen, Bethesda. Gwasanaethwyd wrth y tŷ ym Mangor cyn cychwyn gan y Parch John Williams Tabernacl, ac yn yr eglwys ac ar lan y bedd gan y Parch J. Jenkins, curad. Yr oedd torf fawr o'i hen gymdogion yn disgwyl y gladdedigaeth ac yn ymuno ag ef yn Bethesda, a dangoswyd arwyddion o barch mawr tuag ato drwy dynnu y llenni dros ffenestri a prif fasnachdai. Yr oedd Mr Hughes yn adnabyddus iawn drwy rannau helaeth o Fôn ac Arfon, yn neilltuol fel prisiwr ar eiddo amaethyddol, a bu am flynyddoedd meithion y dyn pwysicaf yn ei ardal; yn deall y gyfraith yn dda ac yn awdurdod uchel ar bob cwestiwn o bwys, yn gymaint felly fel y byddai, o ran parch, yn cael ei alw ar hyd y wlad wrth yr enw yr hen-*judge*. Gweithiodd yn galed yn y gwahanol etholiadau dros W. Bulkeley Hughes, Ysw., A.S., â'r hwn yr oedd yn gyfaill mawr, yn ogystal â Hugh Owen, Ysw., Llundain. Byddai yn barod i amddiffyn cam y weddw a'r amddifad, a'r gwan bob amser, a hir gofir am aml weithred dda o'i eiddo gan yr ardalwyr. Bu yn aelod eglwysig gyda'r Methodistiaid yn Jerusalem am flynyddoedd, a'r misoedd diweddaf yn Hirael, Bangor. Gadawodd bump o blant ac amryw wyrion i alaru ar ei ôl.'

Mae'n debygol mai Catherine Jones, ei ferch, a oedd yn gofalu am Richard Hughes oherwydd mae hi a'i theulu yn byw yn y Royal George Inn, 368 Bangor High St. yng nghyfrifiad 1881. Benjamin Jones oedd ei gŵr, ac roedd y ddau fab yno, sef Richard James, a William James. Richard yn gwneud hwyliau llongau a William yn yr ysgol.

Claddwyd Richard Hughes a'i wraig Mary ym mynwent Eglwys Crist, Glanogwen. Bu Mary farw ar y 18fed o Fehefin, 1877 yn 68 mlwydd oed, ac fel y nodwyd uchod, bu fawr Richard ar y 26ain o Ragfyr, 1877.

**10 OGWEN TERRACE, BETHESDA**

Yng nghyfrifiad 1881, dyn o'r enw **Robert Jones** a'i deulu oedd yn byw yn 9 a 10 Ogwen Terrace. Adnabuwyd y lle fel Cloth Hall yn ogystal.

Mae adroddiad yn y *NWC* Ionawr, 21 1865, o dan y teitl '*LOCAL BOARD OF HEALTH Elaction of collector & Inspector of Nuisances*



*etc.*' lle mae un o'r enw W. M. Williams fel ymgeisydd yn cael ei enwi, ac fe roddwyd ei gyfeiriad fel Cloth Hall.

Cawn adroddiad arall am y flwyddyn 1869 yn *Baner ac Amserau Cymru*, lle mae hanes marwolaeth y Parchedig David Jones, Rhyd Bach yn ymddangos, ac mae'r adroddiad yn darfod gyda'r geiriau hyn: 'Rhoddwyd D. Jones yn y bedd gan chwech o'r gweinidogion hynaf, sef G. Hughes, E. Williams, R. Hughes, T. Owen a T. Owen. Am saith yn yr hwyr pregethodd y Parchedigion T. Owen, Port, a G. Hughes, bregethau angladdol rhagorol iddo. Dymunwn ddwedyd cyn terfynu fod yr ardal a'r eglwys wedi dangos llawer iawn o garedigrwydd tuag at D. Jones yn ei waeledd, ac wedi ymddwyn ato fel dyn Duw. Gadawodd D. Jones weddw a phump o blant i alaru ar ei ôl. Y mae pedwar ohonynt mewn sefyllfa gysurus ac anrhydeddus, sef **Mr. R. Jones, Cloth Hall, Bethesda;** y Parchedigion Daniel D. Jones, Liverpool; D. Jones, a J. Jones, Middle Granville, America.

*Rhyd y clafdy*. R.H.Williams'

Gwelais yr adroddiad yma yn *Y Goleuad* am Awst 10fed 1872, tud. 12, am fachgen 25 oed a oedd mewn gwasanaeth i Robert Jones, Cloth Hall, o'r enw Evan Williams o Lanllechid a oedd ar wythnos o wyliau, a thra oedd yn marchogaeth ceffyl rhwng Conwy a Penmaenmawr fe syrthiodd oddi ar y ceffyl a chael ei niweidio'n ddrwg. Bu farw ymhen tua phum awr ar ôl y ddamwain yn ôl yr adroddiad.

Mae John Hughes, Cloth Hall, yn cael ei enwi fel enillydd gwobr ar 'Hanes y Prophwydi nad ysgrifenasant un o lyfrau y Beibl' yn Y Gylchwyl Lenyddol, Jerusalem, Coed-y-Parc, a Choedmor, Medi 20 a 21, 1878. Roedd John yn ymddangos fel gwas/dilledydd cynorthwyol yng nghyfrifiad 1881 ac yn byw yn rhif 9 Ogwen Terrace. Roedd yn enedigol o Llanfair?

Rhyddfrydwr selog oedd **Robert Jones**, ac mae adroddiad yn *Y Genedl Gymreig*, Mawrth 25, 1880, o dan y teitl 'Lloffion Etholiadol' yn enwi Robert Jones. Dyma ran o'r adroddiad yn dangos nad oes fawr yn newid tros amser. 'Y mae'r Toriaid yn ceisio gwadu na thaflwyd carreg o gwbl at Mr Watkin Williams pan yn dychwelyd o gyfarfod Bethesda; ond y maent yn ddigon haerllug i wadu fod diafol yn bod, pe byddai hynny yn ateb eu pwrpas. Fe daflwyd carreg, ac fe glwyfwyd yr Aelod Seneddol dyfodol dros sir Gaernarfon, ac y mae yn lled debygol mai yr un awdurdodau a orchmynasant y weithred ysgeler hon ag a orchmynasant i ryw ddihiryn ysgrifennu ar shutters shop y Rhyddfrydwr trwyadl Robert Jones, Cloth Hall, Bethesda, y frawddeg felltigedig ganlynol:- "Robart Jones, - os byddwch byw hyd ddiwedd y lexiwn yma, chewch i fyw ond ychydig ddyddiau wedyn." Os ydyw y Toriaid yn disgwyl ennill y frwydr trwy rhyw gastiai isel fel hyn, cânt eu siomi."

Dilledydd oedd Robert ac yn enedigol o Lanllechid. Jane oedd enw ei wraig ac roedd hi yn 45 oed. Roedd dwy ferch, pedwar gwas a dwy forwyn yn byw yn y tŷ hefyd. Ann Mary oedd y ferch hynaf yn 20 oed a Mary Jane ei chwaer yn 18 oed. Roedd Nellie y drydydd ferch yn 13 oed ac yn aros yn rhif 26, 27, Bridge St. Aberystwyth, ac yn cael ei nodi fel '*scholar*' (University College of Wales) ynghyd ag Elizabeth Jane Edwards, 14 oed, hithau o Fethesda. Roedd y fam a'r genethod wedi eu geni yn Llanllechid.

Roedd y pedwar gwas yn nodi mai dilledyddion oeddynt yn ôl eu galwedigaeth. John Hughes, yn 25 oed o Lanfair?; Richard Robart Jones yn 21 oed o Lanfihangel; John Thomas Owen, yn 17 oed o Benmachno; a John Lewis 14 oed o Landygái. Bethesda oedd man geni'r ddwy forwyn, sef Annie Jones ac Anne Jones, un yn 20 oed a'r llall yn 15 oed.

Nid oes cofnod o rywun yn byw yn rhif 9 Ogwen Terrace yng nghyfrifiad 1891, 1901 a 1911, ond roedd Robert Jones yn cael ei nodi fel perchen rhif 9 a 10 Ogwen Terrace yng nghyfrifiad 1881 ac am y blynyddoedd yn dilyn, ond bod y teulu yn byw yn rhif 10.

Yn y *North Wales Express*, Gorffennaf 10, 1885, o dan y pennawd '*CAERNARVONSHIRE QUARTER SESSIONS. TRIAL OF PRISONERS*' cawn enwau'r *Grand Jury*, ac mae **Robert Jones 10 Ogwen Terrace**, yn cael ei enwi fel un o'r rheithgor.

Yna yn y *North Wales Chronicle & Advertiser*, Tachwedd 1885, mae adroddiad ar 'The Nominations. North Caernarvonshire' yn ymddangos. Rhoddir enwau'r ymgeiswyr Ceidwadol a hefyd enw'r Rhyddfrydwr. Mae **Robert Jones, rhif 9 a 10 Ogwen Terrace** yn cael ei enwi fel eilydd i William Rathbone, Green Bank, Lerpwl.

Yn *Seren Cymru* Mawrth 8, 1887 mae llythyr dan y pennawd 'LLWYNPIA' gan J. R. Jones, yn diolch i rhai a gyfrannodd at yr achos, ac mae'n dweud 'Cefais lythyr hefyd yn dweud fod *box* o ddillad ar gyfer y noeth ar y ffordd yn dod oddi wrth Mr a Mrs Jones, New Cloth Hall, Bethesda, Arfon, ac un arall i ddod yn mhen y naw diwrnod. Diolch eto yn gynes am hwn.'

Bu Robert Jones, farw yn 52 oed, Gorffennaf 1889, ac mae adroddiad am ei farwolaeth yn ymddangos yn *Baner ac Amserau Cymru* Gorffennaf 10fed y flwyddyn honno.

(i'w barhau) y mis nesaf - rhif 10 Rhes Ogwen (rhan 2)

# Cyngor Gwynedd yn diogelu coeden hynafol ym Mharc Meurig, Bethesda






Bydd gwaith yn cael ei wneud gan Gyngor Gwynedd i geisio achub coeden hynafol a hanesyddol mewn parc cyhoeddus ym Methesda, fel rhan o becyn ehangach o fuddsoddiad yn yr adnoddau amgylcheddol a chymunedol lleol.

Saif y goeden dderwen sy'n ganrifoedd oed yn Parc Meurig yn y dref, ac fel rhan o waith ehangach i uwchraddio'r adnoddau yn y parc, mae swyddogion Bioamrywiaeth y Cyngor wedi canfod fod y goeden mewn cyflwr gwael iawn ac y gallai achosi perygl i'r cyhoedd.

Er mwyn amddiffyn hirhoedledd y goeden, a hefyd sicrhau iechyd a diogelwch pawb sy'n defnyddio'r ardal i ymlacio a chymdeithasu, bydd y Cyngor yn codi ffens o'i chwmpas a bydd rhan o'r canopi yn cael ei dorri yn ôl.

Eglurodd Jack Walmsley, Swyddog Bioamrywiaeth Cyngor Gwynedd: "Yn ystod archwiliadau cychwynnol o'r holl goed yn Parc Meurig, daeth yn amlwg i ni fod rhan fawr o foncyff y goeden hynafol hon wedi pydru. Yn dilyn archwiliadau mwy manwl gan arbenigwr allanol, canfuwyd fod ffwng wedi heintio'r goeden a fod y pydredd yn ymledu drwy ei strwythur a gall achosi mwy o niwed difrifol i'r boncyff.

"Golygai hyn fod posibilrwydd real i'r canghennau ddod lawr – yn enwedig ar dywydd gwyntog a gaeafol – gan achosi niwed neu anaf.

"Rydan ni wedi bod yn siarad â nifer fawr o bobl leol ac mae pawb yn deall difrifoldeb y sefyllfa. Rydan ni'n tybio fod y goeden brydferth hon yn dyddio'n ôl hyd at 500 mlynedd a does neb eisiau gweld ei cholli na chwaith gweld unrhyw un yn cael eu brifo gan ganghennau yn disgyn."

Bydd gwaith felly yn cael ei wneud i osod ffens o gwmpas y goeden i atal neb rhag cerdded yn uniongyrchol o dan y canopi. Yn ogystal, bydd gwaith yn cael ei gynnal i dorri rhannau o'r goeden er mwyn lleihau'r canopi, fydd yn rhoi gwell siawns iddi oroesi.

Dywedodd y Cynghorydd Dafydd Meurig, Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd dros yr Adran Amgylchedd: "Mae Parc Meurig yn adnodd cymunedol pwysig i Ddyffryn Ogwen. Mae gan yr ardal gysylltiadau â Llyfr Mawr y Plant – sydd wrth gwrs yn arwyddocaol iawn i ddiwylliant Cymru – ac mae'n siŵr fod cenedlaethau o blant wedi dychmygu Siôn Blewyn Coch a Siân Slei Bach yn byw yma dan ganghennau coed derw Parc Meurig.

## Partneriaeth Ogwen




**Trafnidiaeth Gymunedol – Dyffryn Caredig**

Yn dilyn llwyddiant teithiau siopa amrywiol cyn y Nadolig, parhau mae cynigion y Dyffryn Caredig i fynd a thrigolion i siopa yn y bws mini trydan. Mae'r daith wythnosol i siopa mawrion Ffordd Caernarfon, Bangor ar fore Llun wedi profi'n hynod lwyddianus ac mor boblogaidd bod ail daith ar y gweill ar ddydd Mercher. Yn ogystal, mae cynlluniau'i fentro 'chydig ymhellach ar benwythnosau'i siopa gwahanol – Llandudno a Pharc Manwerthu Caergybi.

Mae Efan y cerbyd addas i gadair olwyn hefyd dal ar gael ac hefyd yn brysur iawn yn cludo trigolion lleol i apwyntiadau meddygfa ac ysbytai. Mae hefyd yn cludo ar gyfer digwyddiadau cymdeithasol a hynny'i gyd am bris rhesymol ac heb unrhyw allyriadau niweidiol i'n amgylchedd!

Cysylltwch a cludaint@ogwen.org am fanylion pellach neu ffoniwch 07394906036


# Elwyn Jones & Co

**hefyd yn masnachu fel**
**Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP**

## - Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr Bangor Gwynedd
(01248) 370224

*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol*
*Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*

*Swyddfeydd eraill:*

Llangefni (01248) 723106 | Porthaethwy (01248) 719517 | Benllech (01248) 852782
Caernarfon (01248) 673616 | Pwllheli (01758) 703000

# CHWILAIR



## ENWAU LLEOEDD AR ARYSGRIFAU CERRIG COFFA St. CEDOL, PENTIR

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | A | W | **U** | **S** | **G** | **U** | **B** | **O** | **R** | **I** | **S** | **A** | **F** | F | H | R | I | D | E |
| J | L | B | C | M | B | V | B | H | X | J | U | I | S | V | S | H | E | O | I |
| M | G | V | R | H | M | D | W | H | U | Z | M | X | V | A | D | D | N | L | A |
| P | A | U | Q | Y | U | S | O | F | M | R | P | Y | Q | Z | G | R | H | G | C |
| U | M | W | A | N | N | O | Y | H | A | F | O | D | Y | R | H | A | F | O | R |
| I | A | D | L | S | Z | D | U | T | E | F | D | X | U | P | W | R | H | C | C |
| Q | H | D | L | W | E | H | R | O | S | Y | E | E | G | E | O | M | H | H | E |
| P | T | Y | T | T | C | B | B | A | M | C | U | U | J | P | L | T | M | I | V |
| V | D | W | U | F | C | B | B | F | E | R | F | O | G | J | V | I | I | R | R |
| X | I | E | C | A | M | H | T | T | D | N | O | S | K | O | P | W | R | C | M |
| K | C | N | H | S | B | O | R | C | D | X | O | V | R | Y | H | S | T | M | R |
| E | F | Y | A | I | Y | J | D | Z | Y | F | H | G | B | C | W | O | S | C | R |
| A | I | D | F | A | X | N | I | L | G | X | F | J | J | M | B | W | T | E | X |
| M | D | U | X | R | K | F | U | P | O | C | Q | Y | Y | O | I | L | F | E | R |
| Z | Q | E | R | T | O | C | T | D | N | G | W | S | C | L | Z | E | B | E | A |
| J | K | B | J | E | C | L | N | N | E | W | D | E | F | Y | G | R | E | A | C |
| L | R | V | O | O | G | J | P | W | P | G | S | O | W | J | T | J | Q | U | L |
| F | S | V | T | G | T | R | O | S | Y | G | A | M | D | D | A | N | X | E | U |
| R | A | L | L | T | U | C | H | A | F | G | H | S | L | Z | E | A | A | F | X |
| I | W | T | Z | H | K | V | A | G | B | N | K | A | D | S | I | K | O | P | G |

Yn y Chwilair mis yma mae enw deuddeg LLE SYDD YN YMDDANGOS AR GERRIG COFFA St. CEDOL, PENTIR. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn **un** llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y Chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn 23 Chwefror. Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr. **Cofiwch nid oes angen anfon tudalen y Chwilair o'r Llais i fewn i mi, bydd yr atebion ar ddarn o bapur neu gerdyn yn iawn.**

Nifer fawr ohonoch wedi darganfod **Aelwyn Jones** a **Berwyn Roberts** yn Chwilair Ionawr, ond yn anffodus Elwyn Jones a Wyn Roberts oedd yr atebion cywir.

**Dyma atebion Chwilair Ionawr:** Betty Williams; Dafydd Ellis Thomas; Dafydd Iwan; Elwyn Jones; Emlyn Hooson; Emyr Price; Ioan Bowen Rees; Paul Rawlinson; Peter Thomas; Roger Roberts; Silvan Jones; Wyn Roberts.

**Dyma enwau'r rhai a gafodd yr atebion cywir:** Judith Hughes, Llangoed; Wendy Eccles, Llanllechid; Nia Wyn Bagnall, Llandygai; Eirwen Owen, Erw Las; Margaret Williams, Erw Las; Gwenda Roberts, Rhosmeirch.

**Enillydd Ionawr oedd:** Margaret Williams, 4 Erw Las, Bethesda.

# Natur o'n Cwmpas

# Lili Wen Fach

Blodyn i godi calon ydy'r lili wen fach gyffredin (*Galanthus nivalis*) gan ei fod yn un o'r arwyddion sy'n nodi bod y gwanwyn wedi dod. Enwau eraill ar y blodyn bychan hardd hwn ydy tlws yr eira, eirlys, cloch y baban, cloch Maban, cloch yr eiriol, eirdlws, mws yr eira, a blodyn yr eira.

Does gan y blodyn hwn ddim petalau fel y cyfryw, ond tepalau gwyn efo marciau gwyrdd bychain – tri allanol a thri mewnol – ar goesyn unionsyth. Llwydwyrdd ydy'r dail cul sy'n codi o fôn y coesyn. Mae'n tyfu o fwlb i uchder o 7-15cm ac yn blodeuo rhwng Ionawr a Mai.

Yr hyn sydd fwyaf trawiadol amdano ydy ei fod o'n ymwthio drwy'r eira, a mynegi rhyfeddod ynghylch hynny a wnaeth y bardd William Nantlais Williams yn y pennill a ddaeth yn hynod boblogaidd ar lafar gwlad:

O! lili wen fach, o ble daethost ti,
A'r gwynt mor arw ac mor oer ei gri?
Sut y mentraist ti allan drwy'r eira i gyd?
Nid oes flodyn bach arall i'w weld yn y byd.

Ymateb tebyg a gafwyd gan Gwilym R. Jones o weld camp y blodyn yn ymwthio drwy'r ddaear rewllyd, yn

curo picellau'r corwynt,
concro'r iâ â'r gaea'n giaidd.

Felly hefyd sawl bardd arall, gan gynnwys Eifion Wyn a gâi ei ysbrydoli gan hyfrydwch byd natur:

Beth a welais ar y lawnt,
Gyda wyneb gwyn, edifar?
Tlws yr Eira, blodyn Mawrth.
Wedi codi yn rhy gynnar.

Eu gweld fel côr bechgyn yr eglwys yn eu gwenwisgoedd a wnaeth Alan Llwyd yn ei englyn:

Hogiau mewn ffrogiau, a'u ffril – yn glaerwyn
   Ar goleri cynnil,
Yw'r côr angylaidd, eiddil,
Cantorion yn swatio'n swil.

Does ryfedd i'r lili wen fach ddod yn symbol o burdeb ac atgyfodiad, a dyna welodd Waldo Williams:

Gwyn, gwyn
Yw'r gynnar dorf ar lawr y glyn.
O'r ddaear ddu y nef a'i myn.
Golau â'u pryn o'u gwely pridd
A rhed y gwanwyn yn ddi-glwy'
O'u cyffro hwy uwch cae a ffridd.

*Mae'r golofn hon yn rhoi sylw i ryfeddodau a gwahanol agweddau ar fyd natur Dyffryn Ogwen a'r cyffiniau, gan fanteisio ar wybodaeth leol ac ar ffynonellau eraill. Rhowch wybod os ydych wedi gweld rhywbeth anarferol ym myd natur yn yr ardal. Anfonwch eich cyfraniadau at Ieuan Wyn, Talgarreg, Ffordd Carneddi, Bethesda LL57 3SG ieuanwyn01@gmail.com 01248 600297.*



Mae'n medru tyfu'n glystyrau, yn enwedig ar gloddiau pridd a choedtiroedd, ac os bydd amgylchiadau ei gynefin yn arbennig o ffafriol byddant yn ymffurfio'n garped gwyn gwerth ei weld. Bydd llawer yn ymweld â gerddi Plas yn Rhiw, Llŷn yn gynnar yn y gwanwyn i fwynhau'r olygfa hardd hon.

Mae 20 math o lili wen fach, ac yn ddiweddar, talwyd £350 am un bwlb lili wen fach arbennig, *Galanthus plicatus* 'E.A. Bowles', un a ddatblygwyd i fod â chwe thepal claer wyn, i gyd o'r un maint yn union.

## Wyddech chi..?

- fod gwenynen brin iawn, Saerwenynen y Clogwyn, i'w chanfod mewn dau le yn unig yng ngwledydd Prydain, sef ar glogwyni ym Mhen Llŷn.
- mai tua 1/12 llwyaid o fêl mae pob gwenynen waith yn ei gynhyrchu yn ystod ei bywyd.
- mai enwau'r marianau, sef y gwaddodion rhewlif, ar lan orllewinol Llyn Idwal, ydy Beddau Milwyr Ynys Prydain, ac enw'r mwyaf ei faint ydy Bedd y Cawr. Mae'r enwau'n hen iawn ac yn cyfeirio at arwyr y Brythoniaid.

JR SGAFFALDIAU Cyf. SCAFFOLDING Ltd. JR
YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA, GWYNEDD LL57 3NE
**ebost:** sales@jrscaffolding.co.uk
**Ffôn/Ffacs:** 01248 601754
07770 568743 (symudol)

# Côr y Penrhyn
## gyda Derfel Roberts



**HENLLYS**
Wedi prysurdeb cyfnod y Nadolig cafodd yr aelodau hoe fechan tan ddiwedd mis Ionawr pan ail afaelwyd yn y perfformiadau yn Henllys, ger Biwmares a Nos Iau, 25 Ionawr. O flaen cynulleidfa lawn canodd y côr ffefrynnau megis 'Y Ddau Wladgarwr', 'Ysbryd y Nos' a 'Benedictus' ymhlith nifer o ddarnau eraill. Cafwyd unawdau gan Raymond Roberts (Tenor) a John Outram (Bariton) ac yn ôl cynhesrwydd yr ymateb plesiwyd y gynulleidfa'n fawr.



Criw'n mwynhau cwmni Elvis yn Neuadd Llanfairfechan

**CÔR RYGBI ABERTEIFI YN DIFYRRU**
Ym Mis Tachwedd 2022 aeth aelodau Côr y Penrhyn i lawr i Gastell Newydd Emlyn i aros noson ac i ganu yng nghwmni Côr Rygbi Aberteifi yng Neuadd Fawr Gwesty Rhosygilwen ger Cilgerran.

Ar nos Sadwrn 27 Ionawr tro Côr Aberteifi oedd dod atom ni i gynnal noson. Gan fod gennym nifer o aelodau ffyddlon a gweithgar yn dod o gylch Llanfairfechan a Phenmaenmawr penderfynwyd mai yn Neuadd y Dref Llanfairfechan y byddid yn cynnal y cyngerdd gyda Chôr Aberteifi.

I agor y noson cyflwynodd Côr y Penrhyn nifer o ganeuon oddi ar eu rhaglen a rhoddwyd cymeradwyaeth gynnes i'r holl berfformiad. Roedd y neuadd dan ei sang erbyn 7 o'r gloch ac ar ddiwedd cyflwyniad Côr y Penrhyn unodd y ddau gôr i ganu 'Byd o Heddwch' ac Owain Arwel yn canu'r unawd.

Wedi hynny daeth Côr Aberteifi i'r llwyfan a chafodd pawb flas yn syth ar y difyrrwch oedd i ddod. Mae'r côr o'r de'n griw hwyliog a mentrus a chafwyd hwyl anghyffredin yn eu cwmni o dan arweiniad Rhian Medi, merch y diweddar brifardd, Dic Jones o Flaenannerch ger Aberporth. Mae Rhian Medi'n arweinydd medrus a pharod i fentro gyda threfniannau hwyliog o ganeuon ysgafn Cymraeg a Saesneg.

**CÔR NOSON LAWEN AC ELVIS**
Côr a allai gynnal noson lawen heb gymorth artistiaid eraill ydy'r côr hwn. Mae ganddyn nhw aelodau efo dawn i ddweud stori neu jôcs ac mae eraill sy'n gallu canu unawdau neu berfformio mewn gwisg ffansi. Côr â dawn i ennyn hwyl a chwerthin ydy Côr Rygbi Aberteifi ac mae ganddyn nhw un sy'n dynwared Elvis Presley yn perfformio efo nhw mewn nifer o leoedd. Roedd ymateb y dorf yn y Neuadd yn dweud y cyfan am eu gwerthfawrogiad o noson flasus iawn. Cytunai pawb bod angen mwy o nosweithiau tebyg.



Elvis 'Desley' yn difyrru ar y llwyfan yn Llanfairfechan


Contractwyr Trydanol
Jones & Whitehead cyf
Swyddfa Gofrestredig Penrala,
Tregarth, Bangor, Gwynedd,
LL57 4AU
Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982
E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk

MODURON PANDY Cyf.
UNIPART CAR CARE CENTRE
MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio
01248 600619
moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk
Tregarth, Bangor, Gwynedd LL57 4AY

STEPHEN JONES
TREFNWR ANGLADDAU CYF
PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS
BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976
Ebost: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com

# Cymeriadau'r Côr

**Cyfres yw hon sy'n rhoi ychydig o fanylion am aelodau Côr y Penrhyn.  Yr aelod y mis hwn yw Andrew Jones o Lanfairpwll.**

**Be' ydy dy enw llawn?** Andrew Philip Jones
**Oed?** 57
**Gwaith** Ymgynghorydd Iechyd y cyhoedd gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru GIG Cymru- Rwy'n ymddeol o'm rôl fel 'Dirprwy Gyfarwyddwr Cenedlaethol Diogelu Iechyd a Sgrinio' ar ddiwedd Mis Mawrth 2024
**Lle wyt ti'n byw?** Llanfairpwll, Ynys Môn
**Un o le wyt ti'n wreiddiol?** Ces i fy ngeni yng Nghaerdydd
**Pa dri pheth fasai'n dy ddisgrifio orau?** Gŵr, Tad a Thaid
**Ers faint wyt ti'n aelod o'r côr?** Ymunais â'r côr ym Mis Medi 2022
**Pa lais wyt ti?** Bariton neu Fas 1
**Pam wnest ti ymuno â Chôr y Penrhyn?** Mae gen i amser rŵan i ganolbwyntio ar fy niddordebau fy hun gan y byddaf yn ymddeol yn y dyfodol agos.  Felly mi wnes i ymuno â Chôr y Penrhyn er mwyn cael cyfle i gymdeithasu a mwynhau trwy gyfrwng y Gymraeg.  Rydw i'n ddiolchgar bod Wyn Roberts y Cadeirydd wedi fy nghyflwyno i'r côr gorau yng Nghymru!
**Pa un ydy dy hoff gân yn rhaglen y côr?** 'Gwinllan a Roddwyd'.
**Pwy ydy dy hoff ganwr/gantores?** Andrea Bocelli
**Beth ydy dy farn di am ganu pop?** Mae gen i ddiddordeb eang mewn cerddoriaeth a fy hoff grŵp yw 'Coldplay'.
**Oes gen ti atgof am ryw ymweliad efo'r côr?** Fy atgof gorau hyd yma ydy cael canu gyda'r côr yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Moduan yn 2023. Roeddwn yn teimlo'n falch o fod yn aelod o Gôr y Penrhyn, Bethesda.
**Pa ddiddordebau eraill sy gen ti y tu allan i'r côr?** Dwi'n hoffi cerdded, gwylio rygbi, a dwi'n aelod o Glwb Rhwyfo Moelfre.
**Oes yna rywbeth faset ti'n hoffi gweld y côr yn ei wneud?** Mi hoffwn i'r côr barhau i gefnogi gwledydd, cymdeithasu a chyfrannu at bobl mewn angen.
**Unrhyw sylw arall yn ymwneud â'r côr?** Dwi'n edrych ymlaen at deithio gyda'r côr a chyfarfod â phobl newydd ar draws Cymru a thu hwnt.



# Gair neu ddau

**John Pritchard**

## Bod yn anghywir

Dwi'n gwybod lle mae fy mrawd yn byw. A dwi'n gwybod yn iawn sut i fynd yno. Ond mae yna waith mawr ar y ffyrdd tua Hirwaun ers sawl blwyddyn. A chan fod yna fisoedd rhwng f'ymweliadau ag Aberdâr, mae yna gryn newid i drefn y ffyrdd o un ymweliad i'r llall. Fe'm dryswyd yn llwyr y tro dwytha i mi fynd yno. Mi wyddwn wrth gyrraedd cylchfan newydd anghyflawn arall nad oedd gen i syniad pa lôn i'w dilyn. Ai'r tro cyntaf? Ai'r ail? Ai'r trydydd? Fedrwn i wneud dim synnwyr o'r arwyddion dros dro oedd wedi eu cuddio gan beiriannau'r gwaith. Beth petawn yn mynd y ffordd anghywir? Fyddwn i ar y ffordd i Lyn-nedd? Neu i Gaerdydd? Neu fyddwn i'n mynd nôl tua Phenderyn a'r Bannau? O gymryd y tro anghywir, ac o gofio'r holl waith ac o ystyried dwyster y traffig, pa mor bell fyddai raid i mi fynd cyn troi'n ôl a rhoi cynnig arall arni? A faint o amser fyddwn i wedi ei wastraffu?

Y tro cyntaf amdani! Nid mod i'n gwybod ble oeddwn i nac i ba gyfeiriad yr oeddwn yn mynd iddo. Fedrwn i wneud dim ond mentro 'mlaen a gobeithio'r gorau. O leiaf doeddwn i ddim ar fy ffordd nôl tua'r Bannau! Dyma gyrraedd Llwydcoed. Nid bod hynny o help chwaith gan fod hwnnw'n ddieithr. Ond wedi dilyn fy nhrwyn am sbel, mi ddechreuais nabod y lôn a dod i'r lan. Mi fûm ar goll ac mi gollais amser, ond pa ots am hynny! Y newydd da ydi mod i'n gwybod erbyn hyn ble mae Llwydcoed.

Beth petawn i'n anghywir? Yn gwneud y penderfyniad anghywir? Yn dilyn y llwybr anghywir? Nid o ran Ffordd Blaenau'r Cymoedd nac unrhyw ffordd o'r fath, ond o ran ffordd bywyd. Beth petawn i'n anghywir yn yr hyn yr ydw i'n ei gredu? Beth petawn i'n anghywir fy nghred yn Nuw ac yn Iesu Grist? Beth pe na fyddai'r Efengyl yn wir? Beth pe na fyddai Iesu Grist, wedi'r cwbl, y ffordd a'r gwirionedd a'r bywyd? Beth pe deuai'n amlwg ryw ddydd – ar ddiwedd y daith – mai'r bobl sy'n gwadu bodolaeth Duw ac yn gwrthod Crist oedd yn iawn wedi'r cyfan? Beth pe deuai'n amlwg nad oes yna Dduw yr ydym yn atebol iddo, ac nad oes na nefoedd nac uffern, na bywyd tragwyddol na cholledigaeth na dim y tu draw i'r bedd?

Nid mod i'n amau'r pethau hyn, cofiwch. Dyma'r gwirioneddau fu'n sail i'm bywyd ers blynyddoedd. Fedraf fi ddim profi eu bod yn wir. Fedraf fi ddim profi bod Duw yn fyw. Ond dwi'n credu ei fod, a dwi'n credu'r gwirioneddau. Ond beth pe bawn i'n anghywir? O bosib y gallwn fod wedi dewis ffordd wahanol, ac o bosib y byddwn wedi gwastraffu talp go lew o'm bywyd; ond fyddwn i ddim wir ar fy ngholled. Fynnwn i ddim newid y bywyd Cristnogol a roddwyd i mi am unrhyw beth arall. A hyd yn oed pe byddwn yn anghywir, mi fentraf ddweud y byddai hynny yn y diwedd gan mil gwell na bod yn anghywir o'r ochr arall.

## Mentora Marchnata a Chyllid

Ydych chi'n hunangyflogedig neu'n rhedeg busnes bach yn y Dyffryn? Mae Partneriaeth Ogwen bellach ar gael i gynnig gwasanaethau mentora marchnata a chyllid.

Mae gan ein mentor marchnata, Abbie, gyfoeth o wybodaeth mewn meysydd fel marchnata cyfryngau cymdeithasol, creu cynnwys, optimeiddio peiriannau chwilio, a brandio. Bydd Abbie'n gweithio'n agos gyda chi i ddeall eich amcanion busnes a'ch cynulleidfa darged, ac yna'n eich helpu i ddatblygu cynllun marchnata cynhwysfawr sy'n cyd-fynd â'ch nodau.

Mae gan Lliwen, ein mentor cyllid, brofiad helaeth mewn cyllidebu, cynllunio ariannol, rheoli llif arian, a strategaethau buddsoddi. Bydd Lliwen yn dadansoddi eich sefyllfa ariannol bresennol, yn asesu eich nodau ariannol, ac yn gweithio gyda chi i ddatblygu cynllun wedi'i deilwra sy'n gwneud y mwyaf o'ch adnoddau ac yn lleihau risg.

Cysylltwch â marchnata@ogwen.org am fwy o wybodaeth marchnata, a lliwen@ogwen.org am wybodaeth cyllid.



## Bethesda

**Mary Jones**, maryeds@hotmail.co.uk
(07443 047642)
**Joe Hughes**, Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas, Bethesda (601902)

**Dathlu pen-blwydd arbennig**
Llongyfarchiadau mawr i Mrs Winnie Owens, Bryntirion sy'n dathlu ei phen-blwydd yn naw deg yn ystod y mis. Gobeithio y cewch ben-blwydd hapus iawn.

**Symud cartref**
Pob dymuniad da i Carys ac Alan Parry yn eu cartref newydd yng Nghaerhun. Maent wedi symud o Glanogwen wedi blynyddoedd maith a ble y magwyd Donna a Llinos. Pob hapusrwydd i chi yn eich cartref newydd ac rydym yn siwr na fyddwch yn ddieithr yn y pentref.

Mae Sandra Howell wedi symud cartref yn ddiweddar a hynny o Ffordd Ffrydlas i Cae Rhosydd, Rachub. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn eich cartref newydd Sandra.

**Cofion**
Anfonwn ein cofion at Joe Hughes, Awel y Nant, - ni fu ei iechyd cystal yn ddiweddar ond da yw ei weld yn ôl o gwmpas unwaith eto gyda'i wên barod.

**Clwb Gorffwysfan**
Ar 29 Tachwedd, dydd Mercher sych ac oer, aeth 42 o aelodau a chyfeillion ar wibdaith i Farchnad Bury. Cafwyd diwrnod da a phawb wedi mwynhau. Ar ddydd Iau, 14 Rhagfyr, bu rhai o'r aelodau yn Ysgol Dyffryn Ogwen i fwynhau te prynhawn ac adloniant a baratowyd gan Ceri Ogwen a'r tîm. Diolch i'r staff a'r disgyblion am y croeso arbennig a roddwyd i bawb.

I goroni gweithgareddau'r flwyddyn aeth 56 ohonom i Glwb Rygbi Bethesda ar 15 Rhagfyr am ginio Nadolig. Cafwyd cinio ardderchog wedi ei baratoi gan Wayne a Susan. Roedd pawb wedi mwynhau'r wledd yn fawr iawn. Diolchwyd i bawb am y trefniadau, a hefyd i bawb a gyfrannodd wobrau ar gyfer y raffl. Diolch yn arbennig i Edric, Dilwyn a Dennis.

**Ysbyty**
Dymuniadau gorau am wellhad buan i bawb sy'n sâl a'r rhai a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar, yn eu plith :- Heulwen Hughes, Pen-y-bryn; John Roberts, Llain y Pebyll; Ann Thomas, Maes y Garnedd; Gareth Jones, Pant Glas a Selwyn Owen Ffordd Ffrydlas.

**Cydymdeimlo**
Anfonwn ein cydymdeimlad sawl teulu a fu mewn profedigaeth yn ddiweddar:-

Teulu y ddiweddar Mrs. Helena Hughes (Tregarth gynt).

Mrs. Glenys Lewis a'r teulu, Abercaseg. Colli chwaer a modryb ym Mangor ar 2 Rhagfyr, sef Gwenda Pritchard.

Mr. Selwyn Owen a'r teulu, Ffordd Ffrydlas. Colli ei chwaer a modryb Miriam yn Warrington.

Mr. a Mrs. Frank Thomas, Llety'r Adar. Collodd Frank ei frawd Idris yn ystod mis Ionawr.

Anne a Kevin, Garneddwen. Collodd Anne ei mam ar y dydd cyntaf o'r flwyddyn.

Eluned a'r teulu, Pant Glas. Colli ei brawd yng nghyfraith yn Gerlan, ac yna ei hewythr yng Nghaernarfon.

**Marw**
*John Emrys Williams*
Ar 4 Rhagfyr yn Ysbyty Gwynedd bu farw Mr. John Emrys Williams, Glanffrydlas, gynt o Winacres, Conwy, yn 98 mlwydd oed. Priod y diweddar Mrs. Eunice Williams, tad annwyl Gillian a Rita, tad yng nghyfraith Ken a'r diweddar Gwyn. Roedd hefyd yn daid a hen-daid hoffus. Cynhaliwyd yr angladd yn Amlosgfa Bangor ar ddydd Llun, 18 Rhagfyr. Cydymdeimlwn â chwi i gyd fel teulu.

*William Philip Vaughan*
Yn Ysbyty Gwynedd bu farw Mr. William Philip Vaughan, Glan Ogwen, gynt o Betws Gwerfyl Goch. Priod y diweddar Mrs. Margaret Vaughan, llys-dad i Ann a'r diweddar Chris a thaid i Michele, Michael, Susan a Nicola. Bu ei angladd ddydd Mawrth, 19 Rhagfyr yn Amlosgfa Bangor. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch fel teulu.

## Cyngor Cymuned Bethesda

Cynhaliwyd cyfarfod cyffredinol o'r Cyngor nos Iau, 25ain o Ionawr. Braf oedd cael cyfarfod wyneb yn wyneb yng Nghefnfaes, gyda rhai o'r aelodau yn mynychu yn rhithiol.

**Goleuadau Nadolig**
Adroddodd y Clerc fod yr holl waith cynnal a chadw ac atgyweirio wedi'i gwblhau ddiwedd Tachwedd gan adran goleuo stryd Cyngor Gwynedd. Braf iawn oedd gweld yr holl oleuadau Nadolig, cafwyd adborth positif ac yn amlwg bu iddynt godi calon llawer o drigolion.

**Lloches Bws Lon Newydd**
Cadarnhawyd fod lloches bws newydd wedi cael ei gosod. Ariannir y lloches hon gan Gyngor Cymuned Bethesda.

## Yr Eglwys Unedig

**Cofion**
Anfonwn ein dymuniadau cywiraf at yr aelodau rheiny sy'n gaeth i'w cartrefi, ac yn fregus y dyddiau hyn. Hyderwn y daw'r gwanwyn a'i obaith i godi calon unwaith eto.

**Oedfaon**
Diolch i'n Gweinidog, Y Parchedig Nerys Griffiths, Y Parchedig Gwenda Richards, a Mrs Carol Jones am gynnal gwasanaethau bendithiol iawn yn ystod y mis diwethaf. Yn anffodus, oherwydd tywydd garw iawn, bu'n rhaid dileu'r Gwasanaeth Plygain arfaethedig nos Sul, Ionawr 21. Gobeithio y cawn ni well lwc y tro nesaf!

**Pen-blwydd Arbennig**
Llongyfarchiadau mawr i Mrs Betty Roberts ar gyrraedd ei phen-blwydd yn naw deg oed! Gobeithio i chwi fwynhau'r dathlu, Betty.

**Mrs Megan Phillips**
Gyda thristwch yr ydym yn gorfod cofnodi marwolaeth Megan, a hynny ychydig dros fis ers iddi ddathlu cyrraedd ei phen-blwydd yn gant oed. Cymeriad a hanner oedd Megan, a bu'n hynod o ffyddlon i holl weithgareddau'r Capel hyd eithaf ei gallu. Anfonwn ein cydymdeimlad cywiraf at y teulu oll.

**Llenwi'r Cwpan**
Cofiwch am y baned ar fore Iau – mae nifer dda iawn yn dod draw i'r Festri Fach yn barod. Ymunwch â ni rhwng 10 a 12 o'r gloch!

**Cyhoeddiadau'r Sul – am 10 y bore oni nodir yn wahanol:**
Chwefror 18: Trefniant mewnol
Chwefror 25: Y Parchediig Ddr. Elwyn Richards (5)
Mawrth 3: Y Parchedig Robert Capon (5)
Mawrth 10: Trefniant Mewnol
Mawrth 17: Mr Richard Morris Jones

**Gweddi am Heddwch**
Efengyl tangnefedd, dos rhagot yn aawr,
A doed dy gyfiawnder o'r nefoedd i lawr,
Fel na byddo mwyach na dial na phoen,
Na chariad at ryfel, ond rhyfel yr Oen. *Eifion Wyn*

**Rhaglen Canol Trefi - Cynllun Finyls**
Derbyniwyd gohebiaeth gan Gyngor Gwynedd am y Rhaglen Canol Trefi. Yn ôl ym mis Gorffennaf 2023 cytunodd Cabinet Cyngor Gwynedd i ddyraniad ariannol y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn ei chyfanrwydd gyda dros £1.8m wedi ei glustnodi ar gyfer amrywiaeth o gynlluniau o fewn y Rhaglen Canol Trefi. Un cynllun sydd ar waith o fewn y rhaglen yma yw Cynllun Finyls. Bwriad y cynllun hwn yw cyfrannu tuag at wella edrychiad eiddo a safleoedd gwag o fewn canol trefi Gwynedd drwy osod finyl o fewn ffenestri eiddo gwag ar y stryd fawr.

Gofynnwch i'r Cyngor ystyried unrhyw syniadau neu awgrymiadau am eiddo addas o fewn Bethesda, gan hefyd ystyried y math o ddelweddau y byddwn yn hoffi eu gweld.

**Gwasanaeth Bws Gerlan**
Yn dilyn penderfyniad cwmni Arriva i ddileu eu gwasanaeth 67G o'r Gerlan o Ionawr 7fed aeth tîm Dyffryn Caredig Partneriaeth Ogwen ati i gynnal cyfarfod i geisio barn y trigolion ar drefniadau amgen. Daeth bron i 40 o bobl ynghyd i Gaban Gerlan ar ddiwedd p'nawn/noson aeafol. Roedd hynny, mae'n debyg, yn arwydd o'r angen a'r teimladau cryfion am wasanaeth pwysig i'r trigolion.

Yr hyn ddeilliodd o'r cyfarfod oedd sefydlu gwasanaeth bws cyswllt o'r Gerlan i lawr i Adwy'r Nant ac i'r Stryd Fawr gan ddefnyddio bws drydan Partneriaeth Ogwen. Dechreuodd y gwasanaeth ar Ionawr 8fed a bydd yn rhedeg Llun – Gwener. Bydd dwy fws yn y bore, ar gyfer y rheiny sydd eisiau dal bws Arriva 67L i Fangor, a dwy ar ddiwedd p'nawn ar gyfer pobl sy'n dychwelyd o Fangor neu eisiau cludiant i fyny'r allt gyda'u neges ac ati.

Cynllun peilot am fis yn y lle cyntaf yw'r gwasanaeth hwn er mwyn adnabod y galw am y gwasanaeth a bydd cost o £1.50 ar gyfer pob taith.Bydd angen cadw lle ymlaen llaw ar gyfer teithio ar y bws (drwy cludiant@ogwen.org/07394906036) a bydd cyfarfod arall ddechrau Chwefror er mwyn derbyn adborth gan y gymuned. Cysylltwch â Huw a Menna o'r tîm am fwy o wybodaeth.

*William Hamilton Thomas*
Ar 18 Rhagfyr yn Ysbyty Gwynedd bu farw Mr. William Hamilton Thomas, Adwy'r Nant yn 96 mlwydd oed. Mab y diweddar Mr. a Mrs. Bob Thomas a brawd Ffrancon a'r diweddar Gladwyn a Glenys. Cynhaliwyd ei angladd ar ddydd Mercher, 2 Ionawr yn Amlosgfa Bangor. Rydym yn cydymdeimlo â Frank a'r teulu i gyd.

*William Curig Roberts*
Yn 83 mlwydd oed bu farw Mr. William Curig Roberts yn Ysbyty Gwynedd ar 4 Ionawr. Priod annwyl Mrs. Sulwen Roberts a thad a thad yng nghyfraith Lis ac Allan a Manon ac Ian. Taid Liam, Emily, Tallia ac Amos a hen daid i Leah ac Ollie. Roedd yn frawd a brawd yng nghyfraith i Gwyn a Rhian, Ann a Gwilym a Gwenno. Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yn Amlosgfa Bangor ar ddydd Llun, 22 Ionawr. Cydymdeimlwn â Sulwen a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

## Carnifal Bethesda

Mae'r amser wedi dod i chwilio am Deulu Brenhinol Carnifal Bethesda 2024. I wneud cais cwblhewch ffurflen gofrestru drwy negeseuon facebook,neu drwy ebost. carnifalbethesda@gmail.com

Brenin a Brenhines (blynyddoedd 3 - 6 ysgolion cynradd)

Tywysog aThywysoges (blynyddoedd derbyn - 2 ysgolion cynradd)

Llysgennad ysgol uwchradd blynyddoedd 7- 11): Mae llysgennad yn berson ifanc, deinamig sy'n gweithio o fewn y gymuned i fynd i'r afael â rhwystrau mewn cymdeithas. Rydym am i'n llysgennad gynrychioli lleisiau ifanc Dyffryn Ogwen. Dyddiad cau 26/02/24





**WALIO FFRANCON**
Cysylltwch am Waith
Trwsio/Codi Waliau
Clirio Gerddi ac Ysbwriel
07766 157552
07464 085759

**Mark Davies**
07447804110
Peiriannydd Carafan Teithiol
MD Caravans
Gwasanaethu
Prawf Nwy
Prawf Trydanol
Prawf Tamprwydd
Atgyweirio
Siasis a Brecs
mark@mdcaravans.cymru
MCEA


## Eglwys Crist, Glanogwen

**Clwb Cant yr Apêl**
Enillwyr mis Ionawr:
£30 – Rhif 104 – Mrs Jean Cross
£25 – 21 – Richard Hughes, Ffordd Pant
Llongyfarchiadau i'r enillwyr! Tynnir y gwobrau lwcus yn yr Eglwys ar y bore Mercher olaf o bob mis yn ystod y baned; croeso cynnes i bawb.

**Bore Coffi**
Cynhelir Bore Coffi er budd yr eglwys ar Ddydd Sadwrn, Chwefror 24 rhwng 10.00 a Hanner Dydd.

Y lleoliad y tro hwn fydd Festri Capel Jerusalem, gan fod nifer yn teimlo fod lleoliad ar y gwastad yn mynd i fod yn fwy hwylus.


**Amlenni Rhodd**
Diolch i bawb am eu cyfraniadau cyson dros y flwyddyn trwy'r amlenni wythnosol – mae'r cyfraniadau hyn yn holl bwysig tuag at gostau'r eglwys. Cofiwch hefyd gysylltu os oes gennych amlenni ac yn methu mynychu'r eglwys ar hyn o bryd, gallwn alw amdanynt. Mae sawl un wedi holi ynglyn â thalu trwy Drosglwyddiad Banc os yn methu dod i'r gwasanaethau. Rhif Cyfrif Glanogwen yn y Banc Natwest yw 51-61-28 06306284. Gellir gwneud un taliad neu sefydlu Taliad Sefydlog (Standing Order) ar gyfer bob mis neu unrhyw batrwm arall.

**Cofion**
Anfonwn ein cofion cynhesaf at bawb o'n haelodau a'n hanwyliaid sydd yn wael neu'n gaeth i'w cartref, hefyd i bawb sydd yn galaru am berthnasau annwyl. Cofiwch adael i ni wybod os am gael ymweliad neu Gymun Cartref.

**Gwasanaethau**
Pnawn Sul, Mawrth 3ydd – Gwasanaeth teuluol i gofio am Dewi Sant am 3 y prynhawn
Pob Bore Sul arall am 11.00 y bore – Cymun Bendigaid
Pob Bore Mercher am 10.30 y bore – Cymun Bendigaid neu Foreol Weddi, a phaned a sgwrs i ddilyn.
Pob nos Fercher am 7yh – Awr dawel i gau'r byd a'i broblemau allan
Croeso cynnes fel arfer i bawb i'r holl wasanaethau.

**Manylion cyswllt**
Gellir cysylltu â'r ficer, y Parchedig Ddoctor Gareth Lloyd ar 01248 361521 ar unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys, gan gynnwys trefnu priodas, angladd neu fedydd. Hefyd mae'r Parchedig Sara Roberts yn offeiriad cynorthwyol ac ar gael ar 07967652981.

# CROESAIR



### AR DRAWS
1 Taid am gael mymryn i aros pryd (6)
5 “ - - - - amser, erys cof “ dihareb (4)
9 ‘Ych a fi’, bloeddiodd y Dei bach (7)
10 “ - - - - - - mae Canaan” cân Steve Eaves (6)
11 Methu datrys y gyfrinach ar lechi drwg (8)
12 Rhewi’n gorn ydi’r rhewi yma (6)
15 Caf don o foddhad wrth ddod o hyd i’r ateb (6)
18 Yngan a mynegi’n gywir mewn sgwrs neu stori (8)
20 Daeth â Betsi C. i enwogrwydd (6)
22 Gwlad yn ne-ddwyrain Ewrop (7)
23 Byth yn cicio dros y tresi na thynnu’n groes (4)
24 Ffrwyth melyn, meddal (6)

### I LAWR
2 Crefu’n daer (6)
3 Geiriau coffa ar fedd neu gofgolofn (8)
4 Mae’n dal ei gysgod i ddangos amser (5)
6 “Ta-ta” (4)
7 Ansicr fu’r dyfodol erioed i’r arian yma (6)
8 Dechrau cwestiwn i holi a wyddoch (4,2)
13 Afon sanctaidd y Bedyddiwr (8)
14 Athro B.D. yn rhoi canlyniad i weithgaredd a dweud sut yr aeth hi (6)
16 Adran o’r lluoedd arfog a’u pennau’n y cymylau! (6)
17 Swnio fel carreg ym mhen draw lle creigiog, ond aeron coch ydynt (6)
19 “ Y Tad -‘- - - - “ , drama J.Gwilym Jones 1963 (2,3)
21 Edrych yn fanwl am le i hel y llus gorau (4)

Atebion erbyn 1af Mawrth 2024 fan bellaf (ni ellir ystyried y rhai sy’n cyrraedd yn hwyrach) i ‘Croesair Chwefror’, Bron Eryri,
12 Garneddwen, Bethesda,
Gwynedd LL57 3PD


**L. STURRS A'I FEIBION**

SEFYDLWYD YN 1965

**ADEILADWYR**

HEN IARD STESION,
FFORDD Y STESION, BETHESDA

FFÔN: 600953
isturrs@googlemail.com







### ATEBION CROESAIR IONAWR 2024
**AR DRAWS** 6 Hiraethu, 7 Cadach, 8 Gomer, 10 Ramadan, 12 Ymfudo, 13 Parchus, 15 Nantlle, 17 Mab Adda, 20 Simsanu, 22 Toreth, 24 Egwan, 25 Gwinllan

**I LAWR** 1 Pigo, 2 Henryd, 3 Buarth, 4 Rhagair, 5 Casa, 8 Gwylnos, 9 Mafon, 11 Noswaith, 14 Chwaer, 16 Tasgau, 18 Artaith, 19 Llusgo, 21 Iago, 23 Engan

‘Casa’ yw’r gair Sbaeneg am ‘tŷ’ sef ateb 5 I Lawr, ond cafwyd nifer yn rhoi ateb anghywir fel ‘fama’, ‘fila’, a ‘falla’. Y gwallau eraill oedd ‘lliain’ a ‘cipair’ yn lle’r atebion cywir ‘cadach’ a rhagair’ (7 Ar Draws a 4 I Lawr).

Dyma enwau’r rhai anfonodd atebion hollol gywir : Elizabeth Evans, Penrhosgarnedd; M. A. Jones, Wendy Eccles, Llanllechid; Dilys Wyn Griffith, Abergele; Medi Michael, Bangor; Gaynor Elis-Williams, Rita Bullock, Doris Shaw, Bethesda; Myrddin Williams, Capel Uchaf, Clynnog; Stella Dafis, Rachub; Barbara Jones, Talybont; Elizabeth Buckley, Gareth Oliver, Rosemary Williams, Dulcie Roberts, Tregarth; Jean Vaughan Jones, Rhiwlas

Yr ymgais gywir gyntaf allan o’r celwrn y tro yma oedd un Wendy Eccles, Rynys, Llanllechid, Bangor, Gwynedd LL57 3ED. Llongyfarchiadau calonnog i chi.